Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 10 EBRILL 2018 am 2.00 o'r gloch | TUESDAY, 10 APRIL, 2018 at 2.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |

| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts, Robin Williams

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

**1** **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**

**2** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3** **<u>COFNODION</u>** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 8 Mawrth, 2018.

**4** **<u>GWASANAETH ANGHENION ADDYSGOL YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD AR Y CYD</u>** (Tudalennau 7 - 54)

Cyfwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**5** **<u>RHAGLEN WAITH</u>** (Tudalennau 55 - 58)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Glyn Haynes, K P Hughes, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts a Robin Williams.<br><br>Y Cynghorydd Llinos M Huws - Arweinydd y Cyngor<br><br>**Aelodau Etholedig eraill a wahoddwyd i fynychu'r cyfarfod ar gyfer Eitem 4**<br><br>Y Cynghorwyr R Meirion Jones, Alun Mummery, Dylan Rees. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau),<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 5 yn unig),<br>Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth Dai, Comisiynu a Pholisi) (EL) (ar gyfer eitem 5 yn unig),<br>Rheolwr Sgriwtini (AD),<br>Swyddog Sgriwtini (GR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Vaughan Hughes, Robert Llewelyn Jones a Margaret Murley Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror, 2018.

**4 BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS - CYNLLUN LLESIANT (DRAFFT)**

Cyflwynwyd - adroddiad gan Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â'r uchod. Amlinellodd y Swyddog Sgriwtini rôl statudol y Pwyllgor Sgriwtini fel gofyniad statudol o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n datgan bod yn rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ymgynghori â phwyllgorau sgriwtini awdurdodau lleol (yn ogystal ag ymgyngoreion eraill a enwir) ynghylch paratoi eu hasesiadau o Lesiant Lleol a'u Cynlluniau Llesiant lleol.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at yr amcanion yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef amcanion y mae angen iddynt hefyd fod yn gyson ag amcanion yr Awdurdod yn ei Gynllun Corfforaethol, a dywedodd bod angen sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion a dyheadau trigolion yr Ynys. Ar ôl ystyried y data a gafwyd o'r broses ymgynghori ar y Cynllun Llesiant, dywedodd bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dod i'r casgliad mai'r negeseuon allweddol o'r asesiad oedd: -

- Yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach
- Pwysigrwydd diogelu'r amgylchedd naturiol
- Deall effaith newidiadau demograffig
- Diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg
- Hyrwyddo'r defnydd o adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn y tymor hir
- Gwella cysylltiadau trafnidiaeth i alluogi mynediad i wasanaethau a chyfleusterau
- Yr angen am swyddi o ansawdd da a chartrefi fforddiadwy i bobl leol
- Effaith tlodi ar lesiant
- Sicrhau bod gan bob plentyn gyfle i lwyddo

Dywedodd hi hefyd ei bod yn bwysig bod pob sefydliad partner yn fodlon bod eu hamcanion a'u blaenoriaethau'n cael eu diwallu a bod angen i negeseuon allweddol yr asesiad fod yn ddigon eang i fynd i'r afael â materion o fewn y Cynllun Llesiant.

Sicrhaodd y Prif Weithredwr y Pwyllgor fod yr Awdurdod wedi chwarae rhan lawn yn y gwaith o baratoi'r Cynllun Llesiant ac mai'r her yw sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth rhwng aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael mwy o effaith nag unrhyw sefydliad partner yn gweithio ar ei ben ei hun.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r adroddiad a chododd y materion canlynol: -

- Gofynnwyd a oes perygl y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynd yn 'siop siarad'. Ystyriwyd y dylai'r Bwrdd fod yn rhagweithiol ac y dylai allu dangos bod y sefydliadau partner yn gweithio gyda'i gilydd i gwrdd ag amcanion y Cynllun. Cyfeiriodd yr aelodau at y broses ymgynghori ar y Cynllun Llesiant a nododd mai dim ond 250 o ymatebion a dderbyniwyd.

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwriadu codi ymwybyddiaeth o’r Cynllun ymysg preswylwyr y ddau awdurdod. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor y cynhaliwyd nifer o weithdai ymgynghori statudol ar y Cynllun Llesiant Drafft ac yr ymgynghorwyd â grwpiau cymunedol ar draws yr Ynys. Nododd fod Is-grŵp wedi'i sefydlu a gadeirir gan Brif Swyddog Medrwn Môn (aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) i werthuso sut mae'r Bwrdd yn cyfathrebu â thrigolion ac yn rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd. ‘Roedd y Pwyllgor hefyd o’r farn y byddai o fudd, o bryd i’w gilydd, i Gadeirydd y Pwyllgor hwn fynychu cyfarfod cyhoeddus o’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol fel sylwedydd.

- Gofynnwyd pa mor gyraeddadwy yw’r 9 neges allweddol yn y Cynllun Llesiant Drafft. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor mai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw'r polisi allweddol o ran nodi'r amcanion ar gyfer darparu gwasanaethau cynaliadwy i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn yn y dyfodol.
- Cyfeiriwyd at y llifogydd eithafol a ddigwyddodd ar yr Ynys ym mis Tachwedd 2017 a'r effaith ar unigolion a busnesau; gofynnwyd a oedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi trafod y mater hwn. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor trwy ddweud fod gwybodaeth wedi'i rhannu am y digwyddiadau llifogydd yn ardal Gwynedd ac y rhoddwyd cyflwyniad i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus am y trafodaethau a gynhaliwyd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a’r camau a gymerwyd yn sgil digwyddiadau o'r fath.
- Cyfeiriodd aelod at amcan o fewn y Cynllun Llesiant drafft i 'wella cysylltiadau trafnidiaeth i alluogi mynediad at wasanaethau a chyfleusterau' a chyfeiriodd at yr adroddiad sy'n nodi bod diffyg mynediad at wasanaethau yn un o'r materion a godwyd amlaf yn ystod yr ymgynghoriad ar yr Asesiad Llesiant a’i fod yn amlwg bod hwn yn destun pryder ac yn cael effaith sylweddol ar lesiant unigolion. Gofynnodd o ble y gellir cael yr adnoddau i roi sylw i’r mater hwn a sut y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddylanwadu ar wella cysylltiadau trafnidiaeth. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor trwy ddweud ei bod hi'n cytuno y bydd yn her i wella cysylltiadau trafnidiaeth oherwydd bod adnoddau llywodraeth leol yn gyfyngedig ond dywedodd fod cynllun penodol ar gyfer y rhanbarth wedi'i ddatblygu gan Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru ac y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhoi strwythur ffurfiol ar waith er mwyn cydweithio â’r Bwrdd Uchelgais ac i ddylanwadu ar ei waith. Dywedodd aelod arall ei fod o'r farn na fydd y cydweithio rhwng y gwasanaethau o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn denu adnoddau ariannol ychwanegol a mynegodd bryder y gallai'r Bwrdd ddod yn 'siop siarad'. Dywedodd y Prif Weithredwr y gobeithir, trwy gydweithrediad y sefydliadau partner ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y gallant ddylanwadu ar ei gilydd er mwyn darparu’r gwasanaethau sydd raid wrthynt a sicrhau gwerth am arian i breswylwyr y ddau awdurdod.
- Cyfeiriodd aelod at yr ail neges allweddol y cyfeiriwyd ati yn yr adroddiad ynghylch 'Pwysigrwydd Diogelu'r Amgylchedd Naturiol' ac sy'n nodi bod ein hinsawdd yn newid ac y bydd yn parhau i wneud hynny gan achosi lefel y môr i godi a mwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol megis llifogydd. Mae'r Bwrdd

Gwasanaethau Cyhoeddus wedi amlygu maes blaenoriaeth o ran y mater hwn a holodd yr aelod a fyddai'r Awdurdod hwn yn gallu dynodi Aelod Etholedig i fod yn Hyrwyddwr ar gyfer materion Newid Hinsawdd. Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei bod yn cefnogi'r awgrym ac yn credu y byddai Hyrwyddwr ar gyfer yr Amgylchedd yn ateb gwell.

- Gofynnwyd a fyddai adroddiadau monitro yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini. Yn ei ymateb, dywedodd y Swyddog Sgriwtini y bydd Rhaglen Waith y Pwyllgor yn cynnwys adroddiadau monitro ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig. Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini ei bod yn bwysig i'r Pwyllgor Sgriwtini hwn ystyried canllawiau / amserlenni statudol yn y Cynllun Llesiant Drafft fel y gellir eu cynnwys yn Rhaglen Waith y Pwyllgor.
- Er eu bod yn derbyn bod cynrychiolydd o Gartrefi Cymunedol Gwynedd eisoes yn aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ‘roedd yr Aelodau o’r farn y dylai cynrychiolydd o Gymdeithas Dai sy'n gweithredu ar Ynys Môn wasanaethu ar y Bwrdd hefyd.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Derbyn Cynllun Llesiant Drafft Ynys Môn a Gwynedd;**
- **Awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor hwn i gyflwyno ymateb ffurfiol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn dwyn sylw at y materion a godwyd gan y Pwyllgor hwn fel y nodir nhw uchod.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 5 STRATEGAETH CYFRANOGIAD TENANTIAID LLEOL 2018

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth Dai, Comisiynu a Pholisi mai nod y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol yw sicrhau bod tenantiaid yn deall eu bod yn gallu gweithio gyda'r Awdurdod fel landlord i rannu gwybodaeth a syniadau ar gyfer gwella gwasanaethau tai. Fel landlord cymdeithasol, mae'n rhaid i'r Awdurdod fod â strategaeth o’r fath er mwyn cydymffurfio â Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Genedlaethol 2017 Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i’r adroddiad a chododd y materion canlynol: -

- Gofynnwyd sut mae'r awdurdod yn cyfathrebu â thenantiaid a sut mae’n mynd ati i geisio cael ymatebion gan denantiaid nad ydynt fel arfer yn ymateb i ymarferiad o'r fath. Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth Dai, Comisiynu a Pholisi fod holiadur yn cael ei anfon at denantiaid y Cyngor a bod ymgyrch trwy’r cyfryngau cymdeithasol i annog tenantiaid i rannu barn a

syniadau ac i gymryd rhan er mwyn gwella'r gwasanaeth. Cyfeiriodd hefyd at 'Ddiwrnodau Glanhau Cymunedol' ac mai nod y rheini yw bod tenantiaid yn ymfalchïo yn eu stadau lleol. Sefydlwyd Panel Tenantiaid a Swyddogion Môn sy'n cynnwys tenantiaid a swyddogion tai sy'n cwrdd bob chwarter i fonitro cynnydd y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai ei bod yn bwysig bod tenantiaid yr Awdurdod yn gallu cymharu'r gwasanaethau a gynigir gan y gwasanaeth tai hwn gyda gwasanaethau awdurdodau eraill a Chymdeithasau Tai, a'u bod yn gallu gwneud hynny oherwydd bod un o'r aelodau yn mynychu Digwyddiadau Ffederasiwn Tenantiaid Cymru.

- Gofynnwyd a yw tenantiaid mewn cymunedau llai yn gallu cyfrannu i'r Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid ac a oes ganddynt lais yn y broses. Ymatebodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai bod tenantiaid o gymunedau gwledig yn mynychu Panel Tenantiaid a Swyddogion Môn.
- Cododd aelod y dylai cynrychiolydd o Gymdeithas Dai fod yn bresennol mewn perthynas â'r Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid. Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth Dai, Comisiynu a Pholisi y gellir ymestyn gwahoddiad i gynrychiolydd i unrhyw sesiwn friffio a drefnir yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn cymeradwyo'r Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol i bwrpas ymgynghori.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 6 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini ar Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Mehefin 2019.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith hyd at fis Mehefin 2019.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.15 pm

**Y CYNGHORYDD G O JONES**
**CADEIRYDD**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 10 Ebrill 2018 |
| **Pwnc:** | Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad – Adroddiad ar y gwasanaeth newydd i blant a phobol ifanc sydd wedi dod i rym ers Medi 2018. |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Amlinelliad o'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad hyd yma a phrif lwyddiannau a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach i sicrhau gwasnaeth effiethiol ac effeithlon i bartneriaeth Awdurdodau Addysg Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Gwilym O. Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cynghorydd R Meirion Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Delyth Molyneux |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Einir Thomas<br>01286 679007<br>EinirThomas@gwynedd.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Dim ward benodol |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio argymell cymeradwyo'r canlynol:-<br><br>1. Nodi sefydlu'r Gwasanaeth newydd mewn partneriaeth a Chyngor Sir Gwynedd.<br>2. Nodi bod y Gwasanaeth newydd yn cydymffurfio â'r Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.<br>3. Derbyn Yr Adroddiad Cryno ar berfformiad y Gwasanaeth<br>4. Nodi bydd adroddiadau cyson ar ansawdd y Gwasanaeth yn cael eu cyflwynol yn gyson |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Amcan 1 – Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir.<br><br>Addysg a Sgiliau – Parhau i godi safonau addysg a sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant. |

| 3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini |
|---|
| **Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>· hirdymor<br>· atal<br>· integreiddio<br>· cydweithio<br>· cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| A yw'r Gwasanaeth yn darparu yn unol â'r Strategaeth?<br><br>Beth yw'r heriau ymarferol wedi bod o sefydlu'r gwasanaeth?<br><br>Beth yw'r gwahaniaethau, os o gwbl, sydd yn lefel y ddarpariaeth drwy'r gwasanaeth i'r ddau awdurdod?<br><br>Sut mae'r gwasanaeth yn mesur cynnydd neu effaith o ganlyniad i unrhyw ymyrraeth?<br><br>Beth yw'r dystiolaeth sydd ganddoch chi ar hyn o bryd fod y gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth? |

| 5 – Cefndir / Cyd-destun |
|---|
| **1. Cyflwyniad**<br><br>Mae'r adroddiad hon yn cynnwys y Weledigaeth a arweiniodd at fabwysiadu Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Newydd ar gyfer Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn sydd yn weithredol ers y 1af o Medi 2017. Amlygir disgrifiad byr o bob gwasanaeth o fewn y Tîm Integredig ynghŷd â threfn mynediad at y gwasanaethau. |

## 2. Cyd destun

Mae'r ddeddfwriaeth ADY arfaethedig yn pwysleisio'r angen i roi y disgybl yn ganolog i bob penderfyniad ynglyn a'i addysg, ei ddyheuadau a'i anghenion. Gwneir hyn drwy'r defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn creu 'Proffil un tudalen' a Chynllun Datblygu Unigol (CDU). Mae'n bwysig adnabod:

- Beth mae pobl eraill yn ei hoffi a'i edmygu am yr unigolyn?
- Beth sy'n bwysig i'r unigolyn?
- Beth sy'n bwysig er mwyn cefnogi'r unigolyn?

Er mwyn hyrwyddo'r egwyddorion hyn mae staff pob un o'r gwasanaethau wedi creu eu Proffil Un Tudalen eu hunain sydd ar gael i weddill staff gwasanaeth ac yr ysgolion.

## 3. Y Weledigaeth

Nod ein Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yw:

***'Sicrhau bod plant a phobll ifanc (rhwng 0 a 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar gyfleoedd ac yn ennill profiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar eu cyfer, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd yn unol â'u gallu.'***

Mae'r canlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni drwy'r Strategaeth yn cynnwys:

- darpariaeth sy'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, gan geisio adnabod cyflyrau yn gynnar iawn ym mywydau plant fel y gall hynny gael effaith ar eu haddysg a'u bywydau yn gyffredinol;
- cynyddu'r arbenigeddau yn ein hysgolion trwy raglenni hyfforddi i ddatblygu mwy o arbenigedd;
- trefniadau amlasiantaethol cadarn o gyd-weithio a fydd yn arwain at rannu gwybodaeth, a sicrhau cydgynllunio effeithiol ar gyfer addysg a datblygiad plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol;
- cynnig gwasanaeth sy'n sicrhau bod ansawdd uchel yn perthyn i'r profiadau addysgol;
- plant a phobl ifanc yn derbyn y cymorth ychwanegol yn gynt; yn gwneud cynnydd addysgol ar gyflymder priodol, ac yn cyfrannu at hyrwyddo eu hannibyniaeth;
- amgylchedd ddysgu o'r ansawdd uchaf posib ar gyfer plant sydd efo'r anghenion mwyaf dwys;
- sicrhau cyfundrefn effeithiol ac effeithlon.

## 4. Y Rhesymwaith/Rationale

Mae Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd a Môn yn darparu gwasanaeth integredig cynhwysfawr ar draws lleoliadau addysgol y ddwy sir er mwyn:

- Hybu datblygiad ysgolion i fod yn leoliadau cynhwysol.

- Lleihau effaith ADY ar ddeilliannau plant a phobl ifanc trwy wella sgiliau a chyraeddiadau.
- Darparu addysg addas ac o safon uchel i blant a phobl ifanc gyda ADY.
- Lleoli gwasanaethau o safon uchel yn lleol.
- Ystyried dyheadau ac anghenion unigol a bod pob plentyn a pherson ifanc yn ganolog i'r gwasanaeth ac ymyrraeth sydd yn cael ei ddarparu ar ei gyfer/chyfer.
- Sicrhau sgiliau o ansawdd uchel o fewn gweithlu canolog a gweithlu ysgolion er mwyn gwella perchnogaeth lawn a chynhwysedd ADY o fewn ysgolion y ddwy sir.
- Cyfrannu at wella ansawdd bywyd a lles trwy gyfoethogi'r ddarpariaeth addysgol sydd yn cael ei ddarparu.
- Lleihau'r garfan o blant sydd angen ymyrraeth ychwanegol oherwydd ADY trwy wella cynhwysedd o fewn darpariaethau addysgol.
- Cryfhau cysylltiadau ac atebolrwydd am ADY ar draws haenau'r model darparu.

## 5. Gweithredu Ysgol Gyfan

Mae darparu ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn flaenoriaeth i gymuned gyfan pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Nid cyfrifoldeb y cydlynydd, cymorthyddion a'r uwch dîm rheoli'n unig yw diwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion, mae cymuned lawn yr ysgol yn cynllunio a darparu'n addas ar eu cyfer.

Cyn chwilio am gymorth ychwanegol dylai pob ysgol geisio strategaethau amrywiol sydd wedi ei amlygu'n glir o fewn y meini prawf. Dim ond wedi dilyn y camau yma y gall ysgol dderbyn cymorth ychwanegol o'r tu allan.

## 6. Disgwyliadau Ysgol Gyfan

Mae Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn gyfrifoldeb ymhob agwedd a swyddogaeth o fewn yr ysgol.

### 6.1 Llywodraethwr Cyswllt ADY a Chynhwysiad

Mae rôl y Llywodraethwr Cyswllt ADY a Chynhwysiad yn werthfawr iawn i roi cefnogaeth i'r Pennaeth a'r staff mewn datblygu awyrgylch ddysgu sydd yn hybu cynnydd plant gyda ADY a Chynhwysiad.

### 6.2 Pennaeth (Person Cyswllt ADYaCh ym mhob ysgol)

Mae arweinyddiaeth Pennaeth yr ysgol (neu aelod o'r Uwch Dîm Rheoli) yn y maes ADY a Chynhwysiad yn hanfodol i raeadru meddylfryd, perchnogaeth a chyfathrebu ynglŷn â ADY a Chynhwysiad i weddill staff yr ysgol.

### 6.3 Cydlynydd Ysgol/Clwstwr ADY a Chynhwysiad

Mae'r Cydlynydd Ysgol/Clwstwr ADY a Chynhwysiad yn rôl allweddol o fewn yr ysgol, gyda mewnbwn strategol. Maent yn atebol i Gyrff Llywodraethol a Phenaethiaid yr ysgol, ac yn derbyn arweiniad pellach gan y Gwasanaeth Ansawdd Ardal ADY a Chynhwysiad.

### 6.4 Athrawon Dosbarth/Pwnc

Mae pob athro/awes yn cydnabod fod y cyfrifoldeb am ymateb i ADY a Chynhwysiad yn gyfrifoldeb iddynt hwy. Maent hefyd yn allweddol o ran adnabod ADY a Chynhwysiad o'r newydd.

### 6.5 Cymorthyddion ac Anogwyr Dysgu

Mae gwaith cymorthyddion yn cyfoethogi'r ddarpariaeth sydd ar gael ar draws yr ysgol. Mae gan bob cymhorthydd ac anogwr dysgu, ymhob rôl o fewn ysgol, gyfrifoldeb i ddiwallu ADY a Chynhwysiad disgyblion.

### 6.6 Cyfathrebu â Chartrefi / Partneriaeth Rhieni

Mae gweithio gyda chartrefi a sicrhau cydweithrediad rhieni yn allweddol ar gyfer perthynas lwyddiannus ag unrhyw ddisgybl.

## 7. Y Tîm Integredig

Mae'r strategaeth yn seiliedig ar un Tîm Integredig sgilgar sydd yn cynnwys timau penodol o arbenigeddau yn ôl cyflwr/anhwylder a lleoliad. Mae'r timau yma yn cynghori a chefnogi'r ysgolion ac yn sicrhau cysondeb wrth ddarparu ymyraethau a chefnogaeth briodol i'r unigolion.

Rydym yn rhoi mwy o sylw i anhwylderau iaith, awtistiaeth a chynnal ymddygiad ar sail fod angen ymyrraeth fwy arbenigol ar y cyflyrau yma. Mae newid sylweddol yn y gefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol penodol gyda mwy o bwyslais ar i'r ysgolion gyflwyno'r ddarpariaeth yma eu hunain gyda chefnogaeth ymgynghorol y Tîm Integredig.

Mae'r Gwasanaeth arbenigol wedi cael ei rannu'n ddwy adran sef:

- Y Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Y Gwasanaethau Cynhwysiad




## 8. Mynediad at Wasanaethau

Mae ymyrraeth gynnar a graddoledig yn hanfodol i leihau anawsterau disgyblion ymhellach ymlaen yn eu gyrfa ysgol. Oherwydd hyn mae perthynas agos gyda gweithwyr cymunedol ac addysg yn y sector blynyddoedd cynnar angen bod yn gryf. Mae system gyfeirio yn bodoli ble mae gweithwyr cymunedol iechyd (e.e. Pediatrydd, Ymwelydd Iechyd, Therapydd Iaith a Lleferydd) a sefydliadau addysg blynyddoedd cynnar sydd wedi eu cofrestru gyda'r Awdurdodau fel darparwyr addysg (e.e. Cylchoedd Meithrin) yn gallu cyfeirio plant ifanc i Fforwm Blynyddoedd Cynnar. Mae plant yn cael eu cyfeirio yn unol â'r Meini Prawf Blynyddoedd Cynnar, a chaiff y Cynllun Datblygu Unigol ei ddefnyddio. Gall hyn arwain i drafod y plentyn o fewn maes penodol yn y Fforymau Ardal (e.e. plentyn sydd angen mewnbwn y Tîm Cyfathrebu a Rhyngweithio).

## 9. Meini Prawf

Mae cael Meini Prawf clir ar gyfer Mynediad a Gadael gwasanaethau o fewn y maes ADY a Chynhwysiad yn hybu cysondeb ar draws ysgolion o ran gofynion a disgwyliadau. Mae Meini Prawf penodol yn bodoli o fewn pob maes angen. Pan fo disgybl yn profi anawsterau sydd yn croesi rhwng meysydd fe fydd angen cyfeirio at y Meini Prawf yn y meysydd hynny, ond gyda phenderfyniad o ran adnabyddiaeth o’r plentyn/person ifanc o ba faes ydy’r prif anhawster ar unrhyw bryd.

## 10. Defnyddio dulliau sydd yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn i greu Cynlluniau Datblygu Unigol


Bydd y Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) o fabwysiadu’r ddeddfwriaeth newydd yn disodli datganiadau AAA (Statudol) a Chynlluniau Addysg Unigol (CAU) anstatudol. Bydd pob plentyn neu berson ifanc gydag ADY efo’r hawl i dderbyn yr un cynllun statudol - sef y CDU.

## 11. Fforymau ADY a Chynhwysiad, a Phanel Traws Sirol (Cymedroli)

Mae mwyafrif gwaith y Timau Arbenigol, (ac eithrio agweddau o waith y Seicolegwyr Addysgol a’r Swyddogion Ansawdd ADY a Chynhwysiad, Gwasanaeth Lles a Chwnselwyr), yn cael ei drefnu trwy Fforymau ADY a Chynhwysiad fel man cychwyn. Mae posib i unrhyw ysgol wneud cais am fewnbwn i’r Fforwm yn unol â’r Meini Prawf drwy ddefnyddio Cynllun Datblygu Unigol y plentyn. Mae’r Fforymau Ardal ADYaCh yn cyfarfod bob hanner tymor.

Gyda phlant sydd ag anghenion dwys a chymhleth, mae trafodaeth ynglŷn ag anghenion yn cael ei weithredu trwy Banel Cymedroli Sirol. Mae’r Fforymau a’r Panel yn gweithredu yn unol â Meini Prawf mynediad at a gadael gwasanaeth yr A.Ll. Mae’n rhan allweddol o rôl y Fforymau a’r Paneli i dderbyn gwybodaeth ynglŷn â sut mae ysgolion yn defnyddio’r gwasanaethau arbenigol y maent yn ei dderbyn, ac os ydynt yn rhoi’r argymhellion a gynigir ar waith ar lawr y dosbarth.

## 12. Llwybr Cefnogaeth




## 13. Llywodraethiant

13.1 Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gweithredu ar draws y ddau awdurdod ac yn cynnwys **Uwch Reolwr Cynhwysiad** ac **Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol** sydd yn gyfrifol am arwain y datblygiadau arfaethedig cenedlaethol (Deddfwriaeth ADY) yn ogystal â gweithredu'n llawn ddeilliannau'r Adolygiad Strategol ADY a Chynhwysiad Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.
Maent yn gyfrifol am:

- Reoli a gweithredu gweledigaeth strategol yn y maes Cynhwysiad ac Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ei gyfanrwydd.
- Rheoli'r gyllideb Cynhwysiad/Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Herio ysgolion yn y ddau faes gan sicrhau cysondeb a'r safon uchaf o ymarfer gan yr ysgolion a gwasanaethau canolog.
- Ymweld yn rheolaidd ag ysgolion fel rhan o drefn ragweithiol gan adrodd ar gryfderau a meysydd sydd angen sylw.

13.2 Mae'r **Arweinydd Addysg Gynhwysol** yn atebol am redeg dydd i ddydd ac ansawdd y ddarpariaeth Cynnal Ymddygiad, o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.

- Sicrhau fod yr ymateb yn brydlon, grymus, cyson ac yn cyfarfod gofynion statudol ar draws yr ystod.
- Rheoli patrwm gwaith pedwar tîm cynradd, amserlen disgyblion Pecyn 25 a chydweithio â thair ysgol uwchradd i sicrhau darpariaeth bwrpasol yn CA3.

13.3 Mae'r **Prif Seicolegydd Addysgol** yn atebol am oruchwyliaeth broffesiynol y tîm o Seicolegwyr a rhoi arweiniad strategol yn y maes. Y Prif Seicolegydd fydd yn gweithredu fel Seicolegydd ar gyfer Ysgolion Arbennig ac ar gyfer Lleoliadau All Sirol.

13.4 Mae'r **Swyddogion Ansawdd ADYaCh Ardal** yn gyfrifol am sicrhau fod ysgolion yn ymateb i'r newid yn y Ddeddfwriaeth ADY drwy gefnogi a rheoli'r newid.

- Sicrhau monitro ansawdd ADY o fewn ysgol ac adrodd i'r Swyddogion Addysg/Uwch Reolwyr pan yn briodol
- Cysoni a chefnogi gwaith y Cydlynwyr ADY o ran y defnydd o adnoddau ADY ar lefel ysgol gyfan.
- Cefnogi'r disgyblion efo'r anghenion mwyaf dwys oddi fewn i'r brif ffrwd.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Mae'r Gwasanaeth ADY a Chynhwyisad yn cydymffurfio â Deddf AAA a'r Cod Ymafer AAA cyfredol.<br><br>Mae'r Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad yn cynnig gwsanaeth cyfangwbl dwyieithog |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Bydd y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad yn cynnig gwasanaeth y tu mewn i'r gyllideb cytunedig |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| **Atodiad 1** – Blaenoriaethau a Chynllluniau Busnes/Darparu Gwasanaeth y Bartneriaeth ADY a Chynhwysiad<br>**Atodiad 2** - Adroddiad Cryno ar Berfformiad y Gwasanaeth Cynhwysiad ac A |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Dim |

# Atodiad 1

## Blaenoriaethau a Chynlluniau Busnes/Darparu Gwasnanaeth y Bartneriaeth ADYaCh

### 1. Gwasanaeth Seicoleg Addysgol

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yn cyd-weithio ag ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn i hwyluso ymateb addas a rhesymol pobl ifanc sydd yn profi anawsterau dysgu ychwanegol, yn rhan o Dîm Integredig ADY, lle bo'r anghenion yma yn effeithio ar fynediad yr unigolion i'r cwricwlwm. Maent yn gwneud hyn er mwyn:

- Sicrhau'r deilliannau addysgol gorau posibl ar gyfer unigolion rhwng 0 a 19 oed.
- Darparu Gwasanaeth sydd o safon uchel ac yn cyd-fynd gyda safonau Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC).
- Gweithio mewn modd strategol effeithiol i hybu datblygiad ysgol gyfan yn y modd y mae ADY a Chynhwysiad yn cael ei dargedu.

Mae'r Gwasanaeth yn darparu ystod o wasanaethau gan gynnwys:

- Hyfforddiant ar lefel ysgol, rhanbarthol a sirol ar bynciau sydd yn ymwneud ag ymyraethau, dulliau monitro ac asesu cynnydd, dulliau mapio darpariaeth ysgol gyfan a chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Cyd-weithio agos gyda Swyddogion Ansawdd ADY a Chydlynwyr ADYaCh o fewn ysgolion.
- Ymyrraeth therapiwtig ar lefel grŵp neu unigolyn.
- Ymgynghori gyda rhieni a staff allweddol o fewn yr ysgol ar lefel unigolyn neu grŵp i hybu newid a datblygiad.
- Mewnbwn Uwch Seicolegydd Addysg Ddynodedig ar gyfer y Gwasanaeth Integredig ymhob maes gan gynnwys Cynllunio strategol, hyfforddiant, ymgynghori o fewn y maes.
- Mewnbwn Seicolegol a Strategol o fewn y Fforymau Ardal.

Atodiad 1

**Blaenoriaethau a Deilliannau Cynllun Busnes y Gwasanaeth Seicoleg Addysg:**

| *Cyf.* | *Blaenoriaethau* | *Deilliant* |
|---|---|---|
| 1 | Datblygu gallu'r Tîm i adrodd ar **effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd mewn modd mesuradwy** | · Bod modd i'r Tîm adrodd yn ôl ar y math o waith sydd wedi ei gyflawni, y mesuryddion a ddefnyddiwyd, ac effeithlonrwydd y gwaith yn rheolaidd. |
| 2 | Datblygu strategaeth **hyfforddiant** | · Gwybodaeth ar gael i ddefnyddwyr<br>· Hyfforddiant yn cael ei gynllunio a'i roi mewn modd gydlynol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | · Incwm yn cael ei greu |
| 3 | Datblygu eglurder o **rôl y Tîm** a'r gwasanaeth sydd yn gallu cael ei ddarparu, yn enwedig ym maes Cynhwysiad ac anghenion ymddygiadol/emosiynol. | · Effaith bositif ar ddeilliannau unigolion bregus o fewn ysgolion.<br>· Cyd-weithio ar lefel strategol yn cymryd lle gyda gwasanaethau eraill, a gydag asiantaethau y tu allan i Addysg, yn unol a Strategaeth ADY Gwynedd a Môn. |
| 4 | Datblygu Model ar gyfer dosbarthiad y Tîm sydd yn addas i bwrpas | · Defnydd effeithiol yn cael ei wneud o adnoddau ac arbenigeddau o fewn y tîm.<br>· Y Tîm yn cydweithio yn effeithiol o fewn y Tîm Integredig. |
| 5 | I'r Tîm fod yn darparu gwasanaeth mwy addas ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar | · Gwell canlyniadau i blant ifanc iawn gyda ADY oherwydd ymyrraeth gynnar arbenigol. |

Atodiad 1

## 2. Polisi a Chanllawiau Diogelu

Mae'r Swyddog Diogelu yn gweithredu fel pwynt cyswllt am arweiniad, hyfforddiant a chyngor arbenigol yn y maes amddiffyn plant. Maent yn gweithio'n agos â'r Gwasanaethau Plant i sicrhau fod ein disgyblion yn cael eu diogelu'n llawn o fewn y gyfundrefn addysg. Maent yn cynrychioli addysg mewn cyfarfodydd amddiffyn plant lle bo honiad yn erbyn aelod o staff.

## 3. Strategaeth Hyfforddiant

Mae'n rhaid sicrhau fod gweithlu'r Tîm Integredig yn cynnwys arbenigeddau penodol fesul maes a bod yr arbenigedd yma'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan sicrhau fod yr ymyraethau cywir ar sail tystiolaeth yn cael eu hymarfer. Mae pob tîm arbenigol yn cynllunio Rhaglen Hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer y gweithlu a'r rhieni o dan arweiniad yr Uwch Seicolegwyr Addysg penodol.

## 4. Data a Systemau Electroneg

Mae'n greiddiol ein bod yn gallu symleiddio'r dulliau o ddal gwybodaeth yn electroneg a thrwy hyn leihau dyblygu gwaith. Mae'r drefn yn rhoi mynediad at yr holl wybodaeth am ADY a Chynhwysiad disgybl oddi fewn i un ffeil electroneg.

## 5. Y Tîm Gweinyddol

Gan fod y Cyd Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (CBAAA) wedi dod i ben ar y 31 Awst 2017, 'rydym wedi ail strwythuro'r holl ddarpariaeth weinyddol gan newid y ffocws o weinyddu'r drefn datganiadau i gefnogi Cynlluniau Datblygu Unigol.

Atodiad 1

Mae gan y gwasanaeth Swyddog Datblygu Data sydd yn galluogi'r gwasanaeth fesur effaith ymyraethau'n fwy effeithiol.

**Y Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**6. Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio**

Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio yn ceisio cyfoethogi sgiliau iaith, cyfathrebu a rhyngweithio ac ymateb yn raddoledig pan fo anawsterau oherwydd Oediad, Anhwylder neu Awtistiaeth yn amharu ar ddatblygiad yn y meysydd hyn.

Mae'r tîm yn cynnig arweiniad a hyfforddiant i athrawon a chymorthyddion ar lawr dosbarth er mwyn sicrhau fod y strategaethau cywir yn cael eu defnyddio

Mae Canolfannau (rhan amser) yn rhan annatod o'r gwasanaeth, gyda ffocws clir ar gynyddu sgiliau'r disgyblion wrth ddychwelyd i'r prif lif. Mae 5 Canolfan Anhwylder Iaith Penodol, a 3 Canolfan Gynradd a 2 Ganolfan Uwchradd ar gyfer Cyfathrebu Cymdeithasol (i rai ac anawsterau ar y sbectrwm awtistiaeth).

Mae cyswllt agosach, a gwaith wedi cael ei dargedu yn llawer mwy cydlynol efo'r gwasanaeth therapyddion iaith. Mae rôl y therapyddion hyn yn benodol ar gyfer cefnogi'r disgyblion sydd yn derbyn mewnbwn ymestyn allan, ac o fewn y canolfannau.

**Blaenoriaethau a Deilliannau Cynllun Busnes y gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio:**

| ***Cyf.*** | ***Blaenoriaethau*** | ***Deilliant*** |
|---|---|---|
| 1 | Diffinio **mesuryddion** addas i ddangos effeithlonrwydd y gwasanaeth | · Cyd-weithio gyda'r A.Ll. yn y datblygiad o systemau data addas.<br>· Cynllunio'r defnydd o'r data sydd yn cael ei gasglu yn y CDU i fesur effeithlonrwydd.<br>· Creu/archebu mesuryddion eraill fel sydd angen.<br>· Creu holiadur o farn rhieni/ysgolion |
| 2 | Cynllunio, a chreu **hyfforddiant** arbenigol ar Awtistiaeth/Anhwylderau iaith. | · Hyfforddiant priodol yn cael ei gynnig i ysgolion (holl staff).<br>· Cofnodi ceisiadau am hyfforddiant trwy'r Fforwm<br>· Treialu defnydd Pecyn Hyfforddiant WLGA mewn 10 Ysgol ar draws Gwynedd a Môn. |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | **Gwaith Blynyddoedd Cynnar**: Parhau i ddatblygu partneriaeth fwy effeithiol rhwng cylchoedd meithrin, dosbarthiadau meithrin ac Unedau ABC. | · Cynllunio trosglwyddiad achosion o'r Gwasanaeth ABC i'r Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio yn y Panel Blynyddoedd Cynnar.<br>· Uwch Gymorthyddion y Gwasanaeth yn dod i adnabod achosion yn ystod Tymor yr Haf er mwyn hwyluso trosglwyddiad i'r prif lif.<br>· Cydweithio gyda Dechrau'n Deg i edrych ar achosion i'r dyfodol a rhannu arfer dda. |
| 4 | Sicrhau gwell **cysondeb** sgiliau ar draws y Gwasanaeth | · Adnabod hyfforddiant addas ym meysydd ASA ac Anhwylderau Iaith (e.e. Pecyn Hyfforddiant yr WLGA)<br>· Rhoi gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau fod aelodau'r Tîm yn rhannu arfer dda gyda'i gilydd.<br>· Trefnu i gysgodi ThIaLl a chael hyfforddiant ganddynt o'u rôl. |
| 5 | Parhau i wella **mynediad** at ac allan y Gwasanaeth | · Esblygu pellach y Fforwm – datblygu Fforymau Ardal ar y cyd â gwasanaethau eraill (e.e. y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad)<br>· Sefydlu rhannau newydd o'r gwasanaeth yn unol â datblygiad y Strategaeth ADYaCh.<br>· Dod a defnydd y CDU i'r Fforwm fel ffurflen mynediad yn hytrach na'r ffurflen gyfeirio interim.<br>· Sicrhau defnydd o Feini Prawf mynediad a gadael y gwasanaeth.<br>· Gwella cyswllt a barn rhieni o fewn y Fforwm trwy sicrhau eu bod wedi rhoi mewnbwn i'r CDU. |

## 7. Gwasanaeth Anghenion Dysgu Penodol

Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Penodol yn cyfeirio yn benodol at:

- Anawsterau sylweddol mewn datblygiad sgiliau llythrennedd a/neu rifedd dros gyfnod o amser. Hyn yn cyfeirio at Anawsterau sydd y tu allan i'r amrediad cyfartalog ar gyfer oedran y plentyn.
- Mewn rhai achosion mae'r anawsterau llythrennedd yma yn cael ei disgrifio fel Dyslecsia yn unol â diffiniad y Gymdeithas Seicoleg Brydeinig.

Mae rhai disgyblion yn cael trafferthion datblygiadol sylweddol gyda sgiliau motor man a mawr, a chydsymudedd. Caiff hyn ei ddisgrifio fel Anhwylder Datblygiadol Cydsymudedd neu Ddyspracsia mewn rhai achosion.

Ato

Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Penodol yn ceisio cyfoethogi sgiliau llythrennedd a rhifedd ac ymateb yn raddoledig pan fo anawsterau yn amharu ar ddatblygiad yn y meysydd hyn. Gwneir hyn drwy addasu modelau gweithio i dargedu yn fwy cynhwysol.

Mae'r tîm yn:

- Rhoi ffocws clir ar ddatblygu sgiliau ysgol gyfan ar gyfer amrywiaeth mewn dulliau dysgu
- Sicrhau fod yr awyrgylch dysgu mor gyfeillgar a phosib tuag at anawsterau Dysgu Penodol.
- Sicrhau fod prosesau a dulliau clir yn bodoli i adnabod anawsterau penodol ac amhenodol yn amserol
- Sicrhau fod y rhieni yn rhan allweddol o unrhyw ymyrraeth sydd yn cael ei gynnig.

## 8. Gwasanaeth Nam Synhwyraidd

Mae'r Gwasanaeth Nam Synhwyraidd yn sicrhau fod plant a phobl ifanc gydag anawsterau nam golwg a nam clyw yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm a'r amgylchedd dysgu er mwyn lleihau effaith y Nam ar gynnydd holistaidd ac academaidd y disgyblion.

Mae'r tîm yn:

- Darparu gwasanaeth strwythuredig sydd yn diwallu anghenion disgyblion Nam Synhwyraidd o 0 i 19 oed mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar, ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig, gan sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial.
- Cynnig amrywiaeth o gymorth, darpariaeth ac adnoddau addas i ddiwallu'r anghenion unigol, sydd yn cyd-fynd â gofynion National Sensory Impairment Partnership (NatSIP).

Atodiad 1

**Blaenoriaethau a Deilliannau Cynllun Busnes y gwasanaeth Nam Golwg**

| ***Cyf.*** | ***Blaenoriaethau*** | ***Deilliant*** |
|---|---|---|
| 1 | Diffinio **mesuryddion** addas i ddangos effeithlonrwydd y gwasanaeth | · Y tîm yn gallu adrodd ar gynnydd y plant ac effeithiolrwydd y gwasanaeth, cynllunio defnydd adnoddau'r tîm yn effeithiol.<br>· Y tîm yn gallu olrhain a blaenoriaethu offer ar gyfer unigolion perthnasol. |
| 2 | Cynllunio, a chreu **hyfforddiant** arbenigol Nam Golwg ar gyfer staff ysgolion. | · Cyfrannu at arlwy'r rhaglen hyfforddiant y tîm integredig.<br>· Gwella sgiliau, rhannu gwybodaeth, codi safonau. |
| 3 | Datblygu Pellach**: Gwaith Blynyddoedd Cynnar** | · Gwell canlyniadau i blant ifanc iawn gyda Nam Golwg oherwydd ymyrraeth gynnar arbenigol. |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Parhau i wella **mynediad** at ac allan y Gwasanaeth | · Y Gwasanaeth yn cyrraedd yr achosion cywir.<br>· Hwyluso’r defnydd o feini prawf mynediad a gadael.<br>· Penderfyniadau'r Fforwm yn glir ac yn cyfateb i feini prawf mynediad a gadael.<br>· Y defnydd o dechnoleg yn hybu annibynniaeth, datblygu sgiliau a chodi safnonau disgyblion. |

**Blaenoriaethau a Deilliannau Cynllun Busnes y gwasanaeth Nam Clyw**

| ***Cyf.*** | ***Blaenoriaethau*** | ***Deilliant*** |
|---|---|---|
| 1 | Diffinio **mesuryddion** addas i ddangos effeithlonrwydd y gwasanaeth | · Y tîm yn gallu adrodd ar gynnydd y plant ac effeithiolrwydd y gwasanaeth, cynllunio defnydd adnoddau’r tîm yn effeithiol. |
| 2 | Cynllunio, a chreu **hyfforddiant** arbenigol Nam Clyw ar gyfer staff ysgolion. | · Cyfrannu at arlwy’r rhaglen hyfforddiant y tîm integredig.<br>· Gwella sgiliau, rhannu gwybodaeth, codi safonau. |
| 3 | Datblygu Pellach**: Gwaith Blynyddoedd Cynnar** | · Gwell canlyniadau i blant ifanc iawn gyda Nam Clyw oherwydd ymyrraeth gynnar arbenigol. |
| 4 | Parhau i wella **mynediad** at ac allan y Gwasanaeth | · Y Gwasanaeth yn cyrraedd yr achosion cywir.<br>· Hwyluso’r defnydd o feini prawf mynediad a gadael.<br>· Penderfyniadau'r Fforwm yn glir ac yn cyfateb i feini prawf mynediad a gadael. |

## 9. Gwasanaeth Meddygol a Chorfforol

Mae’r Gwasanaeth Meddygol Corfforol yn hwyluso ymateb addas a rhesymol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd yn profi anawsterau meddygol a/neu gorfforol lle bo’r anghenion yma yn effeithio yn sylweddol ar fynediad yr unigolion i’r cwricwlwm.

Mae’r tîm yn darparu:

- arweiniad arbenigol i ysgolion ar sut i ddiwallu anghenion meddygol o fewn awyrgylch ysgol
- arweiniad ar addasu cwricwlaidd, cydlynu gwybodaeth a datblygu agweddau cynhwysol
- llunio asesiadau risg yn y maes codi a thrin ac yn y maes ymddygiad heriol mewn cyd weithrediad efo’r Seicolegwyr Addysgol a’r athrawon arbenigol.

**Blaenoriaethau a Deilliannau Cynllun Busnes y Gwasanaeth Meddygol a Corfforol:**

| *Cyf.* | *Blaenoriaethau* | *Deilliant* |
|---|---|---|
| 1 | Diffinio **mesuryddion** addas i ddangos effeithlonrwydd y gwasanaeth | · Y tîm yn gallu adrodd ar gynnydd y plant ac effeithiolrwydd y gwasanaeth, cynllunio defnydd adnoddau'r tîm yn effeithiol. |
| 2 | Cynllunio, a chreu **hyfforddiant** arbenigol mewn anghenion Corfforol/Meddygol ar gyfer staff ysgolion. | · Cyfrannu at arlwy'r rhaglen hyfforddiant y tîm integredig.<br>· Gwella sgiliau, rhannu gwybodaeth, codi safonau.<br>· Ysgolion yn gallu cymryd mwy o gyfrifoldeb am anghenion meddygol. |
| 3 | Datblygu Pellach**: Gwaith Blynyddoedd Cynnar** | · Gwell canlyniadau i blant ifanc iawn gyda anghenion meddygol/corfforol oherwydd ymyrraeth gynnar arbenigol. |
| 4 | Parhau i wella **mynediad** at ac allan y Gwasanaeth | · Y Gwasanaeth yn cyrraedd yr achosion cywir.<br>· Hwyluso'r defnydd o feini prawf mynediad a gadael.<br>· Penderfyniadau'r Fforwm yn glir ac yn cyfateb i feini prawf mynediad a gadael. |

Atodiad 1

**Gwasanaethau Cynhwysiad**

**10. Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad**


Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn ceisio newid cadarnhaol mewn ymddygiad pobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a datblygiad cymdeithasol. Y nod yw gwella ymddygiad a lleihau'r risg o waharddiad o ysgol.

Mae'r gwasanaeth addysg gartref i blant sâl yn gweithio â theuluoedd ac ysgolion prif lif i gefnogi pobl ifanc sydd â chyflyrau meddygol cymhleth i gyrraedd eu llawn botensial. Y nod yw cynnig cefnogaeth brydlon ac effeithiol i er mwyn goresgyn unrhyw broblem all godi oherwydd salwch hir dymor.

Mae'r tîm yn;

- Sicrhau fod ethos yn sicrhau perchnogaeth yr ysgolion o'r bobl ifanc yma sydd ag anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol
- Pob athro/awes ymhob ysgol i dderbyn hyfforddiant priodol fydd yn arwain at athrawon sydd yn hyderus i weithio â phobl ifanc sydd ag anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol
- Sicrhau arweiniad arbenigol i alluogi ysgolion i deilwrio ymyraethau arbenigol o fewn adnoddau'r ysgol
- Sicrhau darpariaeth arbenigol safonol lleol ar gyfer y bobl ifanc ac anghenion ymddygiadol ac emosiynol mwyaf dwys

## Trosolwg o'r Gynhaliaeth Cynnal Ymddygiad




## Blaenoriaethau a Deilliannau Cynllun Busnes y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad:

Atodiad 1

| Cyf. | Blaenoriaethau Tîm Ymyrraeth Gynnar a'r ddarpariaeth CA2 a CA3 | YDeilliant |
|---|---|---|
| 1 | Sefydlu trefn hunan arfarnu grymus ac addas i bwrpas yn erbyn safonau ESTYN. | · Adnabod blaenoriaethau ar gyfer datblygu o fewn y Cynllun Busnes 2018-19 |
| 2 | Sicrhau bod darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion CA2 a CA3. | · Sicrhau fod pob dysgwr yn gwneud cynnydd yn erbyn gwaelodlin mynediad a thargedau dysgwyr perthnasol yn cydymffurfio a'r mesuryddion cenedlaethol. Cadw cymhelliant yn cynyddu % presenoldeb. |
| 3 | Sefydlu systemau tracio, monitro ac adrodd grymus o fewn y gwasanaeth. | · Targedau dysgwyr perthnasol yn cydymffurfio a'r mesuryddion cenedlaethol. Pob dysgwr yn gwneud yn erbyn gwaelodlin mynediad. |
| 4 | Gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu ar draws y ddarpariaeth. | · Rhan helaeth o'r gwersi yn dda neu'n well. Pob dysgwr yn gwneud yn erbyn gwaelodlin mynediad. |

## 11. Gwasanaeth Lles Addysg

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn darparu cymorth proffesiynol o safon i blant, pobl ifanc, teuluoedd ag ysgolion fel y gall plant a phobl ifanc elwa o'r ddarpariaeth addysgol a

ddarperir ar eu cyfer. Y nod yw gwella presenoldeb a thrwy hynny cyrhaeddiad addysgol ein pobl ifanc.

Mae’r tîm yn:

- Ymchwilio i’r rhesymau dros absenoldeb o’r ysgol
- Cynnig gwybodaeth a chanllawiau
- Rhoi cyngor i deuluoedd ar wasanaethau cymorth arbenigol eraill a chyfeirio at wasanaethau priodol yn ôl y gofyn
- Rhybuddio, dirwyo ac erlyn yn unol â’r drefn gytunedig

**Blaenoriaethau a Deilliannau Cynllun Busnes y Gwasanaeth Lles Addysg:**

Ato

| ***Cyf.*** | ***Blaenoriaethau*** | ***Deilliant*** |
|---|---|---|
| 1 | Presenoldeb Cynradd:<br><br>· Cynnal % presenoldeb ysgolion cynradd Gwynedd.<br>· Gwella % presenoldeb yn Ynys Môn. | · Targed Cynradd: Gwynedd a Môn:<br>· Pob ysgol i fod yn chwartel 1 a 2.<br>· Pob ysgol yn cael data cyfredol yn fisol.<br>· Y broses o ran ymateb i absenoldebau yn gyson ar draws Gwynedd ac Ynys Môn.<br>· SAA / YH yn derbyn data cyfredol. |
| 2 | Presenoldeb Uwchradd:<br><br>· Cynnal % presenoldeb ysgolion uwchradd Gwynedd.<br>· Gwella % presenoldeb yn Ynys Môn. | · Targed Uwchradd: Gwynedd a Môn<br>· Pob ysgol i fod yn chwartel 1 a 2.<br>· Pob ysgol yn cael data cyfredol yn fisol.<br>· Y broses o ran ymateb i absenoldebau yn gyson ar draws Gwynedd ac Ynys Môn.<br>· SAA / YH yn derbyn data cyfredol. |
| 3 | Targedu presenoldeb yn yr ysgolion a ganlyn:<br>Gwynedd:<br>Môn: | · Lleihad yn yr ysgolion sydd yn chwarter 3 a 4.<br>· Y broses o ran ymateb i absenoldebau yn gyson ar draws Gwynedd ac Ynys Môn.<br>· SAA / YH yn derbyn data cyfredol. |
| 4 | Sefydlu trefn o’r newydd o fewn Ysgolion Arbennig. | · Cynnydd ym mhresenoldeb ysgolion arbennig.<br>· Pob ysgol yn cael data cyfredol yn fisol.<br>· Y broses o ran ymateb i absenoldebau yn gyson ar draws Gwynedd ac Ynys Môn.<br>· SAA / YH yn derbyn data cyfredol. |

**12. Gwasanaeth Diogelu**

Mae'r Uwch Swyddog Diogelu Plant ar gael i roddi cyngor ac arweiniad ar faterion amddiffyn plant a diogelu yng nghyswllt disgyblion a staff ac achosion cymhleth eu natur.

Bydd hyfforddiant amddiffyn plant Lefel 2 yn cael ei gynnal ar gyfer personau dynodedig, llywodraethwyr dynodedig a chadeiryddion er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o arwyddion camdriniaeth ac yn gallu ymateb yn briodol i achosion fgm, priodas dan orfod, camfanteisio'n rhywiol, caethwasiaeth fodern, radicaleiddio ayyb.

Bydd y rhai sydd wedi eu derbyn Lefel 2 yn derbyn pecyn Lefel 1 i'w raeadru gyda staff.
Bydd pecynnau hyfforddiant yn cael eu haddasu yn flynyddol i adlewyrchu newidiadau yn y maes.
Bydd yr Uwch Swyddog Diogelu Plant yn cwblhau awdits rheolaidd yn y maes ac yn trafod dulliau gweithredu i wella ymarfer ar draws y ddwy sir.

Ym Medi 2017 mae 'Pecyn Diogelu' wedi ei rannu gyda ysgolion Gwynedd a Môn. Mae’r pecyn yn cynnwys sawl elfen:

- Y broses amddiffyn plant
- Templedi cyfarfodydd ac adroddiadau
- Polisiau Diogelu
- Gofynion Estyn

Atodiad 1

**13. Gwasanaeth Cwnsela**

Mae’r Gwasanaeth Cwnsela yn wasanaeth annibynnol sydd yn gweithio gydag ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn i gefnogi pobl ifanc sydd â phryderon cymdeithasol, emosiynol i gyrraedd eu llawn botensial. Y nod yw cynnal anghenion emosiynol cymhleth y bobl ifanc yma a thrwy hynny gwella eu cyrhaeddiad addysgol.

Mae’r tîm yn cynnig y canlynol:

- Lle ac amser rheolaidd er mwyn siarad a thrafod eu gofidiau neu anawsterau
- Helpu pobl ifanc i drafod eu teimladau ac edrych ar y ffordd y maen nhw efallai eisiau i bethau fod yn wahanol, trwy siarad a defnyddio amrywiaeth o fodelau cwnsela.
- Ymwneud â materion datblygiadol, datrys problemau, gwella perthnasoedd, gwneud dewisiadau, ymdopi â newidiadau, meithrin mewnwelediad a dealltwriaeth, tyfu fel unigolyn
- Cefnogi a chynnal ein plant a phobl ifanc drwy sicrhau cwnselwyr hyfforddedig cymwysedig sy’n gweithio o fewn cod moeseg a chod ymarfer cydnabyddedig y Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain.

**Blaenoriaethau a Deilliannau Cynllun Busnes y Gwasanaeth Cwnsela:**

| Cyf. | Blaenoriaethau | Deilliant |
|---|---|---|
| 1 | Datblygu model y gwasanaeth er mwyn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael ac i geisio lleihau rhestrau aros. | · i gael mynediad amserol ac addas at y gwasanaeth<br>· Gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael. |
| 2 | Hyfforddi a Datblygu aelodau'r Tîm er mwyn cadw ansawdd a phroffesiynoldeb y gwasanaeth. | · I gadw ansawdd a phroffesiynoldeb y gwasanaeth<br>· Sicrhau fod staff efo lefel uchel o sgiliau |
| 3 | Codi proffil y gwasanaeth a gwybodaeth am y maes cwnsela. | · Rhannu gwybodaeth a cydweithio efo partneriaid |
| 4 | Adolygu prosesau y gwasanaeth er mwyn hwyluso y broses o adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ac i wneud gwell ddefnydd o ddata i fonitro a rhannu gwybodaeth . | · Hwyluso'r broses o adrodd i'r Llywodraeth a monitro |

Atodiad 1

## 14. Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol

Mae'r Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd efo'r Saesneg fel iaith ychwanegol i gyrraedd eu llawn botensial. Y nod yw cynnig cefnogaeth brydlon ac effeithiol i ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn goresgyn unrhyw broblem all godi oherwydd nad Cymraeg a/ neu Saesneg yw iaith gyntaf y disgybl.

Mae'r tîm yn:

- Ymateb yn brydlon a chyson i geisiadau ysgolion am gefnogaeth.
- Darparu'r gefnogaeth fwyaf addas ar gyfer disgyblion.
- Cynnal asesiadau cychwynnol ar 'newydd-ddyfodiaid' mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd
- Sefydlu cysylltiadau positif gyda theuluoedd
- Cyflwyno ystod o strategaethau cynaliadwy ar gyfer cynnal disgyblion.
- Cefnogi athrawon i wahaniaethu ar gyfer disgyblion SIY gan gynnwys cyd ddysgu a modelu arferion da.
- Codi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb, diwylliant, iaith ac amrywiaeth mewn ysgolion.
- Gwneud atgyfeiriadau i wasanaethau priodol yn ôl y gofyn.

**Blaenoriaethau a Deilliannau Cynllun Busnes y Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol:**

| *Cyf.* | *Blaenoriaethau* | *Deilliant* |
|---|---|---|
| 1 | Sefydlu Fforwm Mynediad i'r Gwasanaeth. | · Cysondeb gweithredu ar draws y ddwy sir.<br>· Meini prawf clir yn eu lle.<br>· Gwella perfformiad dysgwyr SIY. |
| 2 | Sefydlu trefn newydd o gefnogi ysgolion drwy'r athrawon arbenigol a chymorthyddion. | · Cysondeb gweithredu ar draws y ddwy sir.<br>· Disgwyliadau yn glir o ran y Gwasanaeth a'r Ysgolion.<br>· Gwella perfformiad dysgwyr SIY. |
| 3 | Llunio a gweithredu cynllun hyfforddiant i ysgolion Gwynedd a Môn | · Dros amser, lleihad yn niferoedd y cyfeiriadau i'r Fforwm. |

Atodiad 1

# ATODIAD 2

**Adroddiad Cryno ar Berfformiad y Gwasanaeth Cynhwysiad ac ADY**

**Adroddiad Cryno ar Berfformiad y Gwasanaeth Cynhwysiad**

## 1 Presenoldeb

Mae'r ffigurau presenoldeb yr adroddwyd arnynt yn 2016/17 yn gadarnhaol gyda Gwynedd ac Ynys Môn yn perfformio'n uwch na chyfartaledd Cymru yn y mwyafrif o ddangosyddion. Mae canran presenoldeb Ysgolion Cynradd Ynys Môn yn is na'r cymedr cenedlaethol o 0.1%. Dim ond 1.3% o wahaniaeth sydd rhwng yr absenoldeb isaf ac uchaf yn y sector cynradd gyda 2.2% o wahaniaeth yn y sector Uwchradd.

| | % Cynradd | Safle Cenedlaethol | % Uwchradd | Safle Cenedlaethol |
|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 95.3 | 3 | 95.2 | 1 |
| Ynys Môn | 94.8 | 10 | 94.6 | 5 |

Atodiad 2

Mae ffocws y gwasanaeth wedi bod ar gysoni ymarfer a chyfnewid ymarfer dda.

Mae'r drefn o adnabod ysgolion sydd angen cynhaliaeth ychwanegol wedi cychwyn ac mae ymweliadau ar y cyd yn mynd rhagddynt.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i erlyn rhieni ar sail diffyg presenoldeb ac mae'r niferoedd yn cynyddu, fodd bynnag mae lleihad wedi bod yn y defnydd o Rybuddion Cosb Benodol yn gyffredinol.

Mae data presenoldeb ar gael drwy ONE. Mae'r data wedi ei osod yn erbyn chwarteli ac yn cael ei ddefnyddio i dargedu cefnogaeth.

**Llwyddiannau**

- Defnyddio data i amlygu ysgolion sydd angen sylw, amlygu blaenoriaethau gwaith y gwasanaeth.

- Erlyn llawer yn gynt na'r arfer. Teuluoedd yn y cynradd yn cael eu herlyn, arddel patrwm Ynys Môn.
- Paru swyddogion o ardaloedd gwahanol, gyda hyn yn arwain at rannu arferion da.
- Defnydd o rannu capasiti y gwasanaeth yn ystod cyfnod absenoldeb.

**Meysydd sydd angen sylw**

- Diffyg eglurdeb o ran rôl y gwasanaeth yn arwain at ddiffyg capasiti
- Disgwyliadau ysgolion o'r gwasanaeth yn anwadal
- Diffyg eglurdeb yn y buddsoddiad staffio yn Ynys Môn
- Baich gwaith Ynys Môn ac Arfon yn ymddangos yn anghytbwys

**Blaenoriaethau 18/19**

- Cytuno ar strwythur staffio i'r dyfodol
- Adolygu'r drefn Hunan Arfarnu Cynradd ac Uwchradd
- Diffinio rôl swyddogion lles yn llawer cliriach i'r tîm ac i'r ysgolion.

Mae'r tabl isod yn amlygu ymchwil ddiweddar i gymhareb Swyddogion Lles i blant fesul awdurdod.

| | Cyfanswm Staff | Poblogaeth Disgyblion | Nifer Plant i S.LL |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 5.1 | 9,699 | 1902 |
| Caerffili | 13 | 28,419 | 2186 |
| Abertawe | 15 | 35,809 | 2387 |
| Torfaen | 6 | 15,017 | 2503 |
| Gwynedd | 6.2 | 17,061 | 2752 |
| Y Fflint | 8 | 23,554 | 2944 |
| Dinbych | 5 | 15,660 | 3132 |
| Conwy | 5 | 15,870 | 3174 |
| Bro Morgannwg | 5.5 | 22,381 | 4069 |
| Caerdydd | 39.8 | 54,129 | 1360 |

Atodiad 2

## 2 Addysg Gartref Ddewisol

Mae niferoedd sydd yn dewis addysgu eu plant gartref yn cynyddu'n genedlaethol ac i raddau llai i ni fel awdurdodau. Mae'r gwasanaeth wedi adolygu gweithdrefnau mewn ymateb i ganllawiau cenedlaethol newydd. Bellach mae pob cais yn cael ei brosesu drwy'r gwasanaeth lles addysg gyda chofrestr electroneg yn ONE.

# ATODIAD 2

Mae'r data a amlygir isod yn seiliedig ar yr wybodaeth yn ONE.

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Niferoedd Gwynedd | 49 |
| Newydd ers Medi 2017 Gwynedd | 6 |
| | |
| Cyfanswm Niferoedd Ynys Môn | 39 |
| Newydd ers Medi 2017 Ynys Môn | 17 |

Mae'r elusen Rhwyd Arall yn cefnogi rhieni lle bo ansicrwydd neu ddiffyg dealltwriaeth o oblygiadau addysgu gartref. Sefydlwyd Rhwyd Arall yn dilyn cydweithio agos â'r adran cynhwysiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Fe fydd y gwasanaeth lles yn ail ymweld â rhieni sydd wedi cytuno i ymweliadau blynyddol. Yn ogystal fe fyddwn yn trefnu i gyfarfod rhieni addysg gartref ddewisol yn ystod tymor yr Haf, unwaith ymhob ardal.

Mae holiadur i bob rhiant ar gychwyn y broses lle gofynnir a fu iddynt deimlo pwysau gan yr ysgol i addysg eu plant gartref. Hyd yma nid oes unrhyw ymateb negyddol wedi bod i'r cwestiwn hwn.

Atodiad 2

**Blaenoriaethau 18/19**

- Cynnal grwpiau cymorth i rieni sydd yn dewis addysgu plant gartref. (Hyn yn arfer da yn Ynys Môn)
- Parhau i roi sylw i gywain a sicrhau cywirdeb data
- Adrodd ar gynnydd i dimau rheoli addysg yn rheolaidd

## 3 Addysg Gartref Plant Sâl

Mae 25 o ddisgyblion yn derbyn addysg gartref oherwydd salwch. Amlygir y rhaniad o ran ardaloedd isod.

| | | % |
|---|---|---|
| Arfon | 9 | 36% |
| Meirion | 6 | 24% |
| Dwyfor | 3 | 12% |
| Môn | 7 | 28% |
| | 25 | |

# ATODIAD 2

Mae'r nifer yma'n sylweddol is na'r ffigwr ar yr un amser flwyddyn yn ôl lle'r adroddwyd fod 36 o ddisgyblion yn derbyn addysg gartref yng Ngwynedd yn unig. Mae'r gostyngiad o ganlyniad i gymedroli mynediad i'r gwasanaeth yn llawer tynnach, a newid mewn polisi yn CAMHS sydd yn ffafrio cefnogi disgyblion yn ôl i addysg.

Swyddogion Pecyn 25 sydd yn darparu mwyafrif yr oriau i'r disgyblion yma. Fodd bynnag mae'r gwasanaeth yn talu am athrawon llanw mewn sefyllfaoedd lle na ellir yn ymarferol gael swyddog i weld y disgybl yn amserol.

## 4 EOTAS

Mae niferoedd EOTAS 17/18 y ddau awdurdod yn debygol o fod yn is na'r cymedr cenedlaethol. Yng Ngwynedd mae 37 o ddisgyblion ar y gofrestr hon o gymharu â 38 y flwyddyn flaenorol. Yn Ynys Môn mae 29 o ddisgyblion ar y gofrestr o gymharu â 40 yn y flwyddyn flaenorol. Er ei bod yn anodd bod yn bendant yr ydym yn rhagweld y bydd hyn oddeutu 2.2 o bob mil o blant yng Ngwynedd a 2.5 o bob mil yn Ynys Môn fydd yn sylweddol is na'r cymedr cenedlaethol o 3 o bob mil o blant.

Er i ni lwyddo i leihau'r rhestr yn sylweddol fe fu i ni orfod galw am adnodd ychwanegol i ddelio â disgyblion a oedd allan o addysg ers peth amser yn Ynys Môn. Mae'r mwyafrif a oedd ar y rhestr tymor yr haf wedi llwyddo i fynd yn ôl i'r ysgol neu o fewn darpariaeth Pecyn 25 fodd bynnag mae 14 yn derbyn addysg gartref drwy Swyddogion Pecyn 25, tiwtoriaid cartref neu gyfuniad o'r ddau.

Gyda dros hanner y disgyblion yma'n flwyddyn 11 yr ydym yn rhagweld y byddwn yn medru dygymod a'r gweddill o fewn yr adnoddau sydd ar gael o Fedi 2018 ymlaen.

Mae'r disgyblion yn cael mynediad i ystod eang o bynciau drwy'r uned gyfeirio. Fodd bynnag mae natur anghenion y plant yn golygu eu bod yn dewis nifer cyfyngedig o bynciau.

**Blaenoriaethau 18/19**

- Cau'r rhestr "Legacy Ynys Môn" a darparu addysg i'r disgyblion yma drwy Swyddogion Pecyn 25 yn unig
- Sicrhau fod pob disgybl yn cael mynediad i ystod eang o ddarpariaethau

## 5 Symud Drwy Drefniant / Trosglwyddo

Atodiad 2

Mae'r polisi symud drwy drefniant wedi ei adolygu ac wedi ei drafod yn y grwpiau strategol. Bellach mae cymal pendant o ran trosglwyddo dyraniad y pen ac fe fydd cyllid y pen yn dilyn y plentyn os yw'r lleoliad newydd yn llwyddiannus.

Yn ogystal â pholisi symud drwy drefniant mae'r gwasanaeth wedi llunio polisi trosglwyddo dyraniad y pen i ddisgyblion sydd  â heriau yn y maes cynhwysiad. Trafodwyd a derbyniwyd y ddau bolisi yn y grwpiau strategol uwchradd.

Bydd y ddau bolisi yn gymorth i sicrhau fod disgyblion yn trosglwyddo'n brydlon o un ysgol i'r llall a sicrhau fod Symud Drwy Drefniant yn cael eu ffafrio fel y drefn o symud disgyblion lle bo heriau cynhwysiad.

**6 Diogelu**

Mae'r Swyddog Diogelu'n gwasanaethu ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn ers diwedd Hydref 2017.

Mae'r calendr y swyddog yn amlygu eu bod yn gweithredu i Ynys Môn 3 o bob 5 diwrnod, er mae'n bwysig nodi nad yw'n ffisegol yn Ynys Môn am gyfwerth a 3 diwrnod o bob wythnos. Mae nifer uchel o ymweliadau diogelu cyn arolwg wedi eu cynnal yn Ynys Môn, 15 o gymharu â dim ond 2 yng Ngwynedd.

Mae awdurdod Ynys Môn yn trefnu ymweliadau cyn ymweliad Estyn i bob ysgol.

Mae'r ymweliadau'n tynnu oddi ar gapasiti y swyddog i hyfforddi a chynnig cefnogaeth brydlon i ysgolion.

**Llwyddiannau**

- Darparu hyfforddiant lefel 1 a 2
- Cyflwyno'r Pecyn Diogelu
- Darparu cefnogaeth arbenigol yn brydlon i ysgolion
- Cynrychioli'r ddwy adran mewn cyfarfodydd ymchwilio

**Meysydd sydd angen sylw**

- Diffyg cyd bwysedd amser rhwng Gwynedd ac Ynys Môn.
- Diffyg capasiti i wneud gwaith gweinyddol
- Ansawdd adroddiadau ymweld ag ysgolion
- Diffyg eglurdeb o ran cyfrifoldebau diogelu

**Blaenoriaethau 18/19**

- Cytuno ar raglen waith

Atodiad 2

- Adolygu'r drefn Hunan Arfarnu Cynradd ac Uwchradd

## 7 Hyfforddiant ACE's

Gyda nawdd Teuluoedd yn Gyntaf gwasanaethau plant Gwynedd ac Ynys Môn cafwyd cyfle ar arbennig i ysgolion dderbyn hyfforddiant ar ACEs. Hyfforddiant ar ACEs (Adverse Childhood Experiences), cynllun diddorol sydd amlygu effeithiau hir dymor profiadau yn gynnar ym mywydau plant.

Mae ACEs yn rhywbeth y mae'r llywodraeth yn awyddus i ysgolion feithrin dealltwriaeth holl staff ynddo gan ei fod yn cyd fynd a'r ffocws ar lesiant yn y cwricwlwm newydd.

Cyd gynlluniwyd yr hyfforddiant fel bod ysgolion yn;

- meithrin dealltwriaeth o ACEs
- medru cynnal hyfforddiant ysgol gyfan yn y maes (dim mwy na 30munud)

Mr Andrew Bennett (hyfforddwr annibynnol) fu gyflwyno'r cwrs. Yr oedd Andrew eisoes wedi gweithio ag ystod eang o wasanaethau yn Ynys Môn ac er mwyn hyrwyddo dilyniant gofynnwyd iddo ddarparu'r hyfforddiant i ysgolion.

Bu i 13 o ysgolion Ynys Môn a 36 o ysgolion Gwynedd fanteisio ar y cyfle. Roedd adborth yr hyfforddiant yn gadarnhaol.

Atodiad 2

## 8 Plant Mewn Gofal

Mae'r gwasanaeth wedi cyd gordio'r grant PMG eleni ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn. Fel rhan o'r cynlluniau lleol mae pob Ysgol Uwchradd wedi cychwyn ar y cynllun Ysgolion sydd yn Meithrin tra bo chwe ysgol gynradd (tair ymhob awdurdod) wedi cael grant i sefydlu Grwpiau Meithrin o'r newydd. Yn ogystal mae holiaduron wedi'u dosbarthu drwy'r gwasanaethau plant i dros 45 o blant (30 Gwynedd /15 Ynys Môn).

Fel rhan o'r cynllun bu i ni awdurdodi £35,000 o wariant ar ddarpariaeth ychwanegol unigol i blant mewn gofal gyda £23,000 yn cael ei gytuno yng Ngwynedd a £12,000 yn Ynys Môn. Mae'r ysgolion wedi buddsoddi mewn ystod eang o ddarpariaethau anstatudol.

Mae'r fforwm ymddygiad yn adrodd fod 40% o'r disgyblion sydd wedi eu cyfeirio yn blant mewn gofal, hyn o gymharu â 15% yng Ngwynedd.

**Llwyddiannau**

- Cynlluniau strategol yn y maes Magwraeth
- Wedi defnyddio'r cyllid yn llawn
- Perthynas weithio strategol a GwE

**Meysydd sydd angen sylw**

- Diffyg mewnbwn y swyddogion cyswllt addysg
- Cyfrifoldeb am ansawdd addysg PMG
- Diffyg pwynt cyswllt ymarferol i'r ddau awdurdod efo GwE

**Blaenoriaethau 18/19**

- Adolygu'r swydd Swyddog Cyswllt Addysg PMG
- Adolygu defnydd strategol y grant PMG  i'r maes ymddygiad.

Ar gyfer y flwyddyn arianol nesaf awgrymir fod cyfrifioldeb am y grant hwn yn cael ei roi yn ol i'r awdurdodau unigol ond ein bod yn parhau a'r cynllun Meithrin.

**9 Saesneg fel Iaith Ychwanegol**

Mae'r gwasanaeth wedi cynnal 2 fforwm mynediad, dyma'r tro cyntaf i lwyth gwaith y gwasanaeth hwn gael ei flaenoriaethu ers sefydlu'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi 21 o ieithoedd gwahanol.

Mae 138 o ddisgyblion wedi eu cyfeirio at y ddau fforwm. Amlygir isod y gwahaniaeth o ran ardaloedd.

| | Nifer | % | Cynradd | % Cynradd | Uwchradd | % Uwchradd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfon | 100 | 72% | 57 | 57% | 43 | 43% |
| Dwyfor | 14 | 10% | 10 | 71% | 4 | 29% |
| Môn | 20 | 14% | 13 | 65% | 7 | 35% |
| Meirion | 4 | 3% | 1 | 25% | 3 | 75% |

Mae mwyafrif y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn Arfon (72%). Mae'r sector gynradd yn hawlio 59% o'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd.

Darperir gwasanaeth i 19 o ysgolion. Gyda dim ond 5 ohonynt yn Ysgolion Uwchradd.

Atodiad 2

# ATODIAD 2

Mae'r gwasanaeth wedi amlygu pecynnau ymyrraeth clir sydd ar gael i bob ysgol.

Defnyddir graddfa A i D ar gyfer mesur cynnydd. Byddwn yn adrodd yn fanwl ar ganrannau cynnydd yn y fforwm tymor yr haf.

**Llwyddiannau**

- Sefydlu trefn fforwm clir ar gyfer derbyn cyfeiriadau.
- Amlygu pecynnau gwaith / cefnogaeth all y gwasanaeth eu cynnig.

**Meysydd sydd angen sylw**

- Rhai ysgolion ddim yn ymwybodol o'r gwasanaeth sydd ar gael ac felly'n peidio cyfeirio.
- Diffyg cyfleoedd i hyfforddi o fewn ysgolion.
- Diffyg sicrwydd cyllidol.

**Blaenoriaethau 18/19**

- Adolygu'r angen am y gwasanaeth
- Ymchwilio i fodelau darparu amgen.
- Sicrhau ffynhonnell gyllidol gynaliadwy i'r dyfodol

Atodiad 2

**10 Cwnsela**


| | | % |
|---|---|---|
| Arfon | 153 | 41% |
| Dwyfor | 74 | 20% |
| Meirion | 47 | 13% |
| Ynys Môn | 102 | 27% |
| | 376 | |

Mae'r gwasanaeth cwnsela yn cefnogi 376 o ddisgyblion yn y sector Uwchradd.

Mae niferoedd y cyfeiriadau cynradd yn parhau i godi gyda 18 o gyfeiriadau newydd eleni.

Mae hwn yn wasanaeth cyfrinachol fodd bynnag cesglir data ar y math o heriau y mae'r bobl ifanc yn eu trafod yn ystod y sesiynau. Defnyddir graddfa i fesur effaith y gwasanaeth. Bydd hyn yn cael adrodd arno'n flynyddol.

# ATODIAD 2




Mae gan y gwasanaeth restr aros o'n agos i 100 ar hyn o bryd ac mae hyn yn achosi pryder.

Byddwn yn edrych ar fodel cymedroli ar gyfer y gwasanaeth, gyda threfn Conwy yn fodel y byddwn yn ei graffu ymusg nifer o rai eraill.

**Llwyddiannau**

- Mae'r tîm cwnsela'n teimlo'n rhan o'r gwasanaeth cynhwysiad.
- Mae ysgolion yn cyfeirio'n rheolaidd a chywir i'r gwasanaeth
- Mae ysgolion cynradd wedi cychwyn cyfeirio'n gywir.

Atodiad 2

**Meysydd sydd angen sylw**

- Rhestrau aros yn y mwyafrif o ysgolion
- Diffyg blaenoriaethu achosion
- Diffyg cyswllt gyda gwasanaeth CAMHS

**Digwyddiad Datgelu Data**

Yn ystod y tymor yma bu i'r gwasanaeth fod yn gyfrifol am ryddhau data cyfrinachol i aelod o'r cyhoedd mewn camgymeriad. Mae'r achos wedi ei gyfeirio ymlaen Comisiynydd Gwybodaeth ac mae'r aelod o staff wedi ei disgyblu.

**11 Ymddygiad**

**Ymyrraeth Gynnar**

# ATODIAD 2

Mae'r fforwm ymddygiad cynradd yn trafod anghenion ymddygiadol plant bob hanner tymor. Mae'r fforwm ymddygiad yn weithredol ers dwy flynedd yng Ngwynedd. Dim ond dwywaith y bu i ni gynnal fforwm ymddygiad Ynys Môn  hyd yma gyda'r diweddaraf bythefnos yn ôl.

Pwrpas y fforwm ydi trafod ymateb y tîm ymyrraeth gynnar, a sicrhau fod y ddarpariaeth a gynigir yn cael ei weithredu a'i fod yn effeithiol.

Mae ystod eang o becynnau y gall y tîm eu cynnig drwy'r athrawon arbenigol, uwch gymorthfeydd ymestyn allan, tîm seicoleg ac ystod eang asiantaethau eraill gan gynnwys gwasanaethau plant, Gyda'n Gilydd a Thîm o Amgylch y Teulu.

Mae'r Swyddogion Ansawdd yn ymateb i bryderon am ddiffyg ymateb ysgolion unigol neu ddiffygion mewn ansawdd y ddarpariaeth sydd mewn lle.

Amlygir isod nifer y disgyblion sydd yn agored i'r fforwm ymddygiad.

| | | % |
|---|---|---|
| Arfon | 149 | 52% |
| Meirion | 47 | 16% |
| Dwyfor | 54 | 19% |
| Môn | 37 | 13% |
| | 287 | |

Atodiad 2

Mae penodiadau diweddar wedi  sicrhau fod lefel staffio addas i'r timau ymyrraeth gynnar ar gyfer y ddau awdurdod. Mae Athrawes Arbenigol ac Uwch Gymhorthydd Ymestyn Allan yn Ynys Môn bellach, er bod yr Athrawes wedi bod i ffwrdd yn sâl am y tymor cyntaf.

Mae'r Uwch Athrawes ymyrraeth gynnar wedi cynnig goruchwyliaeth / llanw dros gyfnod salwch yr athrawes.

Mae dros 40% o'r disgyblion a gyfeiriwyd at sylw'r fforwm ymddygiad yn Ynys Môn yn blant mewn gofal.

## 12 MAPA

Mae'r tîm ymyrraeth gynnar wedi hyfforddi 101 o staff yn MAPA, hyfforddiant sylfaenol mewn rheoli ymddygiad ymosodol gwirioneddol neu bosib. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei gydnabod fel hyfforddiant addas cyn gorfod ffrwyno. Mae 65 o staff ysgolion Gwynedd a 36 o staff ysgolion Ynys Môn wedi manteisio ar yr hyfforddiant.

Mae 6 o'r tim bellach wedi ei hyfforddi i fod yn hyfforddwyr. Gellid cael mynediad i'r hyfforddiant drwy'r fforwm ymddygiad.

Mae'r polisi grym rhesymol wedi ei addasu mewn ymateb i gynnwys yr hyfforddiant ac fe fydd hwn yn cael ei rannu ag ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn cyn diwedd y tymor drwy'r hwb polisïau.

**13 Canolfannau CA2/3 (Llechen Lan)**

Cofrestrwyd darpariaeth CA2/3 a Phecyn 25 fel portffolio o unedau cyfeirio yn Rhagfyr 2017. Bydd y ddarpariaeth yn cael eu harolygu o fewn 18 mis.

Mae canolfan Tŷ'r Ysgol y Moelwyn yn agored ers Ionawr 2018. Mae canolfan Caergybi a Penygroes yn agor wedi'r Pasg.

Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant trylwyr gyda sylw dwys i'r meysydd canlynol wedi ei roi.

Mae 4 o ddisgyblion yng Nghanolfan Tŷ'r Ysgol y Moelwyn gyda 2 i gychwyn yn y ddwy ganolfan arall wedi'r Pasg.

Mae pob disgybl wedi cael eu harsylwi o fewn y prif lif am gyfnod cyn cychwyn yn ganolfan. Bydd cynlluniau manwl ar gyfer dychwelyd yn ol i'r ysgol pan fod disgyblion yn barod.

Atodiad 2

**Llwyddiannau**

- Mae gan y gwasanaeth leoliadau penodedig safonol sydd yn golygu fod y ddarpariaeth ar gyfer dysgwr bregus Gwynedd ac Ynys Môn wedi gwella'n sylweddol.
- Mae systemau cyfeirio/mynediad, adolygu a thracio cynnydd dysgwyr yn ei lle
- Canran presenoldeb disgyblion(UCD) yn 100% a'u data ymgysylltu'n dynodi gwelliant arwyddocaol.
- Disgyblion yn datgan eu bod yn teimlo'n hapus, yn saff ac eu bod yn gwneud cynnydd.
- Staff wedi eu penodi a phob un a swydd ddisgrifiad, ac wedi cwblhau rhaglen hyfforddiant cychwynnol, golyga hyn eu bod yn llawer mwy hyderus yn eu gwaith.
- Trefn gyfeirio yn dilyn argymhelliad y fforwm ymddygiad yn sicrhau trefn ac atebolrwydd i'r broses mynediad
- Trefn mesur gwaelodlin cyrhaeddiad dysgwyr yn ei lle er mwyn tracio cynnydd.

**Meysydd sydd angen sylw**

- Sicrhau fod pob ysgol a chymuned y gwasanaeth yn ymwybodol o’r drefn/prosesau cyfeirio/mynediad.
- Grymuso ymhellach y drefn o fesur gwaelodlin a chynnydd dysgwyr
- Gweithdrefnau ail integreiddio disgyblion i’r prif lif.
- Penodi staff tymor hir yn dilyn dirwyn i ben ymchwiliad Brynffynnon
- Ymweliadau Mônitor ansawdd (gwersi a gwaith y dysgwyr)

**Blaenoriaethau 18/19**

- Sicrhau fod y ddarpariaeth yn Estyn barod
- Sicrhau fod Hunan Arfarniad cyflawn erbyn diwedd y flwyddyn academaidd
- Sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd ei botensial.

## 14 Pecyn 25

Mae P25 yn weithredol dros y ddwy sir ers Mis medi 2018, gyda niferoedd cynyddol wedi eu cyfeirio o’r ysgolion ar gyfer y pecyn addysg hwn. Mae 54 o ddisgyblion ar y rhestr gyfredol gyda 20 Ynys Môn 34 Gwynedd. Mae 13 o’r disgyblion yma ar y pecyn oherwydd salwch.

Mae staff P25 yn cynnig darpariaeth wedi ei deilwra yn arbennig ar gyfer y disgyblion unigol, gyda nifer uchel, bron pawb yn astudio pynciau craidd a chymwysterau amrywiol addas eraill.

Mae’r staff yn hyderus yn ei gwaith ac wedi ymroi i raglen hyfforddiant pwrpasol er mwyn eu galluogi i wella’r ddarpariaeth ymhellach mewn canolfannau ‘pop up’ amrywiol dros y ddwy sir.

Er llwyddiannau’r ddarpariaeth mae’n bwysig nodi fod y ddarpariaeth o dan straen sylweddol. Mae’r niferoedd wedi bod yn uchel eleni ac o ganlyniad nid yw wedi bod yn bosib bob amser cynnig y 25 awr sydd yn statudol.

Mewn ymateb i hyn yr ydym yn cynnig dynodi uchafswm nifer y dysgwyr y gall y gwasanaeth ddarparu ar ei gyfer. Pe byddai’r galw yn uwch na’r rhif yma fe fydd rhaid penodi staff ychwanegol gyda’r gost yn dod o gyllidebau ysgolion y flwyddyn ganlynol. Bydd rhaid ymgynhori a’r ysgolion ar hyn.

**Llwyddiannau**

- Trefniadau diogelwch a phrosesau clir a dealladwy wedi eu hadnabod ar gyfer pob canolfan

Atodiad 2

- Disgyblion yn teimlo’n hapus ac yn ddiogel
- Nifer gwaharddiadau penodol yn isel iawn (6 diwrnod yn unig)
- Canran presenoldeb yn dangos cynnydd yn erbyn data blaenorol y dysgwyr yn y ddwy sir.
- Prosesau mynediad a chyfeirio clir yn ei lle sydd wedi gwella dealltwriaeth pawb o’r hyn sy’n cael eu cynnig.

**Meysydd sydd angen sylw**

- Niferoedd uchel yn ei gwneud hi’n anodd diwallu anghenion pob disgybl
- Grymuso ymhellach y drefn o fesur gwaelodlin a chynnydd dysgwyr
- Penodi staff tymor hir a sicrhau rhaglen hyfforddiant pellach
- Ymweliadau Monitro ansawdd (gwersi a gwaith y dysgwyr)

**Blaenoriaethau 18/19**

- Sicrhau fod y ddarpariaeth yn Estyn barod
- Sicrhau fod Hunan Arfarniad cyflawn erbyn diwedd y flwyddyn academaidd
- Sicrhau bod y gyllideb yn caniatáu i’r gwasanaeth ddiwallu anghenion niferoedd cynyddol o ddysgwyr (lefel staffio)
- Sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd ei botensial.

Atodiad 2

## 15 Gwaharddiadau

### 15.1 Uwchradd

Mae lefel gwaharddiadau penodol yn cymharu’n ffafriol a’r flwyddyn flaenorol.

| | Gwaharddiadau Penodol 17/18 |
|---|---|
| Gwynedd | 72 |
| Ynys Môn | 24 |

Yn ystod y flwyddyn academaidd dim ond 1 gwaharddiad parhaol sydd wedi ei gofnodi yng Ngwynedd gyda Ynys Môn yn adrodd ar 0 gwaharddiad parhaol.

### 15.2 Cynradd

# ATODIAD 2

Mae lefel gwaharddiadau penodol ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.

| | Gwaharddiadau Penodol 17/18 |
|---|---|
| Gwynedd | 35 |
| Ynys Môn | 7 |

Nid oes yr un gwaharddiad parhaol wedi ei gofnodi yn ysgolion cynradd Gwynedd ac Ynys Môn. Fodd bynnag mae'n bwysig nodi fod 3 ysgol yn ardal Bangor wedi cychwyn y broses ond wedi dirwyn y broses i ben yn dilyn dewis rhiant i symud ei phlentyn.

Mae gwaith sylweddol er mwyn lleihau'r niferoedd gwaharddiadau parhaol. Mae'r gwasanaeth yn cael ei roi mewn lle anodd lle bo'n rhaid ystyried effaith ystadegol y gwaharddiad yn erbyn barn y Pennaeth, dymuniad rhieni ac yn bwysicach lles y disgybl.

**Llwyddiannau**

- Sefydlu trefn electroneg o gasglu data gwaharddiadau
- Fforwm ymddygiad cynradd yn rhoi ffocws ar weithredu cyn gwahardd
- Ymateb prydlon y gwasanaeth wedi lleihau nifer gwaharddiadau parhaol yn sylweddol

**Meysydd sydd angen sylw**

- Diffyg cysondeb rhwng ysgolion cyn gwahardd yn benodol neu'n barhaol

**Blaenoriaethau 18/19**

- Ymgynghori a chyflwyno arweiniad i ysgolion ar pryd mae'n rhesymol i wahardd
- Ymchwilio i'r defnydd o bwerau awdurdod lle bo ysgolion yn gwahardd heb reswm digonol
- Adolygu targedau gwahaddiadau parhaol a phenodol i fod yn rhai realistig

## 16 Egwyddorion Meithrin

Mae'r gwasanaeth cynhwysiad wedi sefydlu partneriaeth waith gyda'r Rhwydwaith Meithrin (Nurture Group Network). Golyga hyn ein bod yn byw gwerthoedd Meithrin ym

Atodiad 2

mhob agwedd o'n gwaith gan gynnwys gweithredu ysgol, tîm ymyrraeth gynnar, darpariaethau ysgol, canolfannau CA2/3 a Phecyn 25.

Fel rhan o'r bartneriaeth yma yr ydym wedi blaenoriaethu cyllid y cynllun Plant Mewn Gofal eleni i sefydlu mwy o grwpiau Meithrin a sicrhau fod pob ysgol uwchradd yn datblygu i fod yn Ysgolion sydd yn Meithrin.

Er mwyn sicrhau parhad y cynllun blaengar yma yr ydym wedi sefydlu is grŵp rheoli ar gyfer Meithrin sydd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r ysgolion a'r Rhwydwaith Meithrin. Mae Uwch Seicolegydd Cynhwysiad yn cyd gordio'r cynllun gan sicrhau fod yr ysgolion yn cyrraedd y nod o fod yn ysgolion sydd yn meithrin.

**Blaenoriaethau 18/19**

- Llunio cynllun meithrin hir dymor sydd yn gynaliadwy heb grant plant mewn gofal
- Sicrhau fod Hunan Arfarniad cyflawn erbyn diwedd y flwyddyn academaidd

Atodiad 2

**17. Adroddiad Gryno ar Berfformiad y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol**


Mae'r Gwasaneth yn weithredol ers mis Medi 2017, a bellach mae 2 Fforwm ADY wedi cael ei gynnal.

O'r tabl isod gwelir fod y Gwasanaethau wedi cynnig darpariaeth i 353 o ddisgyblion Môn a Gwynedd. Mae hyn wedi bod yn sialens i rai Gwasanaethau, er hyn o gymharu Tabl Fforwm Tachwedd a Chwefror gwelir bod gostyngiad yn nifer y ceisiadau i'r Fforwm. Un o brif bryderon Margaret Davies, Estyn oedd y byddai'r Gwsanaethau yn cael eu llethu â cheisiadau, ond dengys ar hyn o bryd nad yw hyn yn digwydd.

(Gweler adroddiadau unigol pob Gwasanaeth)

# ATODIAD 2

## Fforymau ADY




**Fforwm mis Tachwedd**

| Gwasnaeth | Gwynedd | Ynys_Môn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| ADY Penodol | 43 | 79 | 122 |
| Cyfathrebu a Rhyngweithio | 54 | 59 | 113 |
| Corfforol/Meddygol | 6 | 4 | 10 |
| Nam Clyw | 10 | 6 | 16 |
| Nam Golwg | 0 | 1 | 1 |
| Newydd | 2 | 0 | 2 |
| Panel 3*** | 7 | 0 | 7 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Panel Cymedroli | 5 | 4 | 9 |
| Swyddog Ansawdd | 24 | 2 | 26 |
| Ymddygiad | 4 | 2 | 6 |
| **Cyfanswm siriol** | **155** | **157** | **312** |

**Fforwm mis Chwefror**

| Gwasnaethau | Gwynedd | Ynys_Môn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| ADY Penodol | 8 | 11 | 19 |
| Cyfathrebu a Rhyngweithio | 9 | 8 | 17 |
| Corfforol Meddygol | 1 | 0 | 1 |
| Nam Golwg | 1 | 0 | 1 |
| Newydd | 0 | 1 | 1 |
| Swyddog Ansawdd | 6 | 1 | 7 |
| Ymddygiad | 0 | 2 | 2 |
| **Cyfanswm sirol** | **25** | **23** | **48** |

Atodiad 2

### 17.0Prif Flaenoriaeth y Gwasanaeth

### 17.1Mesurydd

O dan arweiniad y Prif Seicolegydd penderfynwyd y bydd y Gwasanaethau i gyd yn defnyddio un mesurydd sef TOMS, ynghyd â phrofion arbenigol.  Mae hyfforddiant wedi ei gynnig a bydd yn y mesurydd yma yn cael weithredol o hyn allan.

### 17.2Hyfforddiant

Mae'r Gwasaenth ADY yn mynd rhagddi i fapio hyfforddiant y gall pob Gwasanaeth ei gynnig i'r ysgolion.

# ATODIAD 2

**R17.3 Ragio**

Ar 21/3/18 bydd gweithdy llunio meiniprawf ragio ysgolion gany Gwasanaethau a bydd hwn yn bwydo i Crynodeb Ragio ADY fydd gan arweiniad y Swyddogion Ansawdd.

**17.4 PLASC**

Rhoddir blaenoriaeth gan y Swyddogion Asawdd i hyfforddi ysgolion ac aelodau o'r Gwasanaethau ar sut i fynd ati i ddyfarnu cod PLASC i ddisgyblion.

**17.5 Paratoi at y Ddedfwriaeth Newydd**

Sicrhau bod pob ysgol yn Môn a Gwynedd gyda Map Darpariaeth ADY a CH cyfredol gyda meiniprawf clir ar gyfer mynediad a gadael pob darpariaeth a gynigir gan yr ysgol.

Sicrhau bod pob ysgol yn defnyddio Dull Person Ganolog wrth gynnal cyfarfodydd gyda rhieni yn hyderus a meintiol.

Sicrhau bod pob Cydlynydd newydd yn derbyn hyfforddiant CDU a Dull Person Ganolog.

Atodiad 2

**18. Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio**

| **Uwch athrawes Arbenigol** | **Athrawon Arbenigol** | **Uwch Gymorthyddion Arbenigol (Lefel 4)** | **Cymhorthyddion Arbenigol (Lefel 3)** | **Cymhorthydd (Lefel 2)** |
|---|---|---|---|---|
| 0.8 | 6.2 | 4 | 9 | 1 |

1 Canolfan Cyfathrebu a Rhyngweithio (Coed Mawr)

4 Canolfan Anhwylderau Iaith (Dolbadarn, Bro Hedd Wyn, Cymerau, Llandegfan)

**Crynodeb:-**

Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio yn cefnogi ysgolion i gyfoethogi sgiliau iaith, cyfathrebu a rhyngweithio gan gynnig gwasanaeth graddoledig pan fo anawsterau oherwydd oediad, anhwylder neu awtistiaeth yn amharu ar ddatblygiad yn y meysydd hyn.

# ATODIAD 2

Mae'r tîm yn cefnogi 450 o ddisgyblion

Gwasanaeth yn cynnig 5 lefel o ymyrraeth yn ddibynnol ar anghenion unigolion:-

- Athrawon arbenigol - asesiad o anghenion a hyfforddiant
- Uwch gymhorthydd Arbenigol (Awtistiaeth) - cymorth i weithredu strategaethau addas.
- Cymhorthydd arbenigol (Iaith) - cymorth i gyflawn targedau / cynnal grwpiau.
- Canolfannau Anhwylder Iaith - lleoliad arbenigol ar gyfer plant Cyfnod Sylfaen sydd ag anhwylderau Iaith
- Canolfan Cyfathrebu a Rhyngweithio- lleoliad arbenigol ar gyfer plant Cyfnod Sylfaen sydd ag anawsterau rhyngweithio.

Mae achosion yn cael eu trafod yn rheolaidd pob 6 wythnos mewn cyfarfodydd ardal.

Atodiad 2

**Llwyddiannau:-**

Aelodau newydd y tîm wedi eu hanwytho a'u hyfforddi ac yn gweithio yn eu hardaloedd i gefnogi ysgolion.

Wedi sefydlu cyfarfodydd ardal - sydd yn cyd-fynd ar strategaeth ADYaCh . Cyfarfod aml asiantaethol i drafod cynnydd ac addasrwydd cefnogaeth disgyblion ac ysgolion o fewn ardal. Yn y cyfarfodydd ceir Seicolegydd Addysg, Swyddog Ansawdd Therapyddion Iaith a Lleferydd, aelodau o'r timau ADP a Chynhwysiad.

Cydweithio'n agos gyda Therapyddion Iaith a Lleferydd ac yn y broses o gyfuno'r ddau dîm i greu un Gwasanaeth.

Wedi sefydlu ac agor 2 Ganolfan newydd ers Mis Medi - un Cyfathrebu a Rhyngweithio ym Mangor ac un Anhwylder Iaith yn Llandegfan. Bellach mae gan y gwasanaeth 5 canolfan arbenigol.

37 o blant yn derbyn lleoliad mewn canolfan arbenigol ar hyn o bryd - 7 wedi gadael yn y ddau dymor diwethaf gyda'r bwriad o integreiddio 9 arall ar yn ô li brif lid ar ôl y Pasg.

Aelodau'r gwasanaeth wedi cael hyfforddiant TOMS (Therapy Outcome Measures) er mwyn monitro cynnydd unigolion a chynllunio darpariaeth addas.

Basdata wedi ei sefydlu a gwybodaeth yn cael ei ddiwygio'n ddyddiol fel bo angen. Defnyddir y babsdata i dracio cynnydd ac i flaenoriaethu adnoddau staffio.

# ATODIAD 2

**Yr hyn sydd angen ei flaenoriaethu:-**

Mae angen diwygio Meini Prawf (mynediad a chau) i gyd-fynd gyda defnyddio TOMs. Angen diwygio meini prawf ar gyfer y gwahanol lefelau o gefnogaeth yn y gwasanaeth (nawr ein bod yn uno gyda gwasanaeth ThIaLl).

Yn y broses o dreialu ‘triage’ gyda Therapyddion Iaith a Lleferydd yn Nwyfor - er mwyn blaenoriaethu ymyraethau a chategoreiddio angen.

Gwella trefniadau o fonitro perfformiad.

Creu hyfforddiant o’r newydd ar y cyd â Therapyddion Iaith a Lleferydd

**Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn Gorffennaf 2018:-**

Y gobaith ydi cyflawni'r hyn yr ydym wedi ei flaenoriaethu erbyn Gorffennaf 2018.

**19. Gwasanaeth ADY Penodol**

| Uwch Athrawes | Athrawon arbenigol | Cymorthyddion Arbenigol (lefel 3) 32.5 awr |
|---|---|---|
| 0.9 | 3.4 | 3.0 |

**Crynodeb**

Y tîm – yn dilyn strwythur newydd - ar hyn o bryd yn cefnogi 132 o ddisgyblion. Nifer o geisiadau wedi ei dderbyn hyd yma wedi bod yn heriol.

**Llwyddiannau**

Y tîm wedi sefydlu rôl cymorthyddion o fewn y gwasanaeth. Cymorthyddion newydd wedi cael eu hanwytho a’u cefnogi / hyfforddi gan athrawon y tîm.

Y gwasanaeth yn strwythuro'r broses o sut i gefnogi disgyblion yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn.

Coladu/ creu adnoddau canolig o fewn y gwasanaeth.

Atodiad 2

# ATODIAD 2

Y gwasanaeth yn edrych ar ddefnydd o asesiadau safonol ac ansafonol o fewn y gwasanaeth.

Aelodau o'r gwasanaeth wedi mynychu hyfforddiant TOMS - i gofnodi mesuryddion cyn ac ar ôl mewnbwn y gwasanaeth.

**Yr hyn sydd angen ei flaenoriaethu**

Sicrhau dealltwriaeth o'r mathau o wasanaeth y gall ADY Penodol ei gynnig

Meini prawf mynediad y gwasanaeth

Meini prawf gadael y gwasanaeth.-
cefnogaeth / argymhellion i ddisgyblion lle nad oes tystiolaeth o gynnydd yn dilyn mewnbwn arbenigol y gwasanaeth.

Bas data'r gwasanaeth yn weithredol.

Cyfarfodydd ardal neu wasanaeth i drafod disgyblion - cynnwys seicolegydd addysg a'r Swyddogion Ansawdd.

Ymateb fel gwasnaeth i'r angen yn ôl nifer o geisiadau yn hytarch na'n ddaearyddol- fel bo cysondeb yn llwyth gwaith aelodau'r tim.

Arweiniad datbylygiadol rheolaidd gan y Prif Seicolegydd.

**Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn Gorffennaf 2018**

Eglurder ar y Gwasnaeth gan ysgolion

Meiniprawf wedi eu ddiwygio.

**20. Gwasanaeth Corfforol / Meddygol**

| Uwch Athrawes | Athrawon arbenigol | Cymorthyddion Arbenigol (lefel 4) 32.5 awr | Asesydd risg plant – symud a thrin |
|---|---|---|---|
| 0.9 | 1.0 | 1.0 | 1.0 |

# ATODIAD 2

**Crynodeb**

Y tim ar ei strwythr newydd ar hyn o bryd yn cefnogi oddeutu 175 o ddisgyblion. Ysgolion / iechyd wedi cychwyn y broses o roi cais am wasanaeth drwy system Fforwm ers Mis Medi 2017.

**Llwyddiannau**

Y tim wedi penodi cymorthydd ac asesydd risg newydd o fewn y gwasanaeth. Cymorthydd newydd yn cael ei hanwytho a'i chefnogi/ hyfforddi gan athrawes y tîm.

Asesydd Risg yn dilyn cwrs i gymhwyso fel 'asesydd risg symud a thrin' yn Llundain 26/2/8-02/03/18

Basdata newydd y gwasanaeth wrthi'n cael ei sefydlu a'i ddefnyddio i gofnodi data a cheisiadau fforwm

Bas data asesiadau risg wedi ei sefydlu.

Yr Uwch Athrawes wedi cychwyn cydweithio ag arbenigwyr iechyd i strwythuro cefnogaeth i ddisgyblion.

**Yr hyn sydd angen ei flaenoriaethu**

Sefydlu partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol

Datblygu i ddefnyddio TOMS er mwyn asesu a chreu mesuryddion .

Cyfarfodydd gwasanaeth i drafod disgyblion – cynnwys seicolegwyr addysg, Swyddogion Ansawdd, cynyrchiolydd o'r sector iechyd.

**Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn Gorffennaf 2018**

Bas Data cyfredol gan y gwasanaeth.-

Meini Prawf wedi'w ddiwygio.

Cyfarfodydd gyda'r Gwasanaeth Iechyd wedi sefydlu i drafod achosion bob hanner tymor.

**21. Nam Clyw**



Atodiad 2

# ATODIAD 2

| Uwch Athrawes | Athrawon arbenigol | Uwch Gymhorthydd arbenigol (lefel 4) | Cymorthyddion Arbenigol (lefel 3) 30 awr |
|---|---|---|---|
| 0.9 | 1.1 | 1.0 | 1.0 |

**Crynodeb**

Y tîm  ar hyn o bryd yn cefnogi dros  a 200 o ddisgyblion (A a B), yn ogystal â 30 o ddisgyblion sydd wedi derbyn ymgynghoriad ac ar ein rhestr ‘ ysgol /iechyd i gysylltu os oes pryder - neu ddirywiad clyw’ .

Ceisiadau yn cael eu derbyn o’r adran iechyd i’w drafod yn y Fforwm

Clinigau misol - aml asiantaethol Iechyd/addysg i drafod achosion unigol.

Ymyrraeth y gwasanaeth yn seiliedig ar asesiadau Natsip- Gwasanaeth  Gwynedd a Môn yn rhan o feincnodi cenedlaethol ac wedi cael ei addasu’n sylweddol.

Asesiadau safonol  / ansafonol yn cael eu defnyddio yn gyson  fewn y gwasanaeth i asesu'r plentyn cyfan

Gwasanaeth yn rhan o HOSS – Heads of Sensory Service Cymru gyfan i rannu arfer dda.

Gwasanaeth yn rhan o CHWSG - ‘Children’s Hearing Service Working Group’-

**Llwyddiannau**

Y tîm wedi sefydlu rôl cymorthyddion o fewn y gwasanaeth. Cymorthyddion newydd wedi cael eu hanwytho a’u cefnogi/ hyfforddi  gan athrawon y tîm.

Y gwasanaeth yn strwythuro'r broses o gefnogi disgyblion yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn./ capasiti y gwasanaeth - ymyrraeth Natsip wedi ei addasu yn ôl capasiti presennol – gostyniad sylweddol yn ymyrraethau.

Basdata newydd y gwasanaeth wedi cael ei sefydlu a’i ddefnyddio i gofnodi data  eang  am bob disgybl a cheisiadau  newydd o’r Fforwm

Aelodau o’r gwasanaeth wedi mynychu hyfforddiant TOMS - i gofnodi mesuryddion cyn ac ar ôl mewnbwn y gwasanaeth.

Atodiad 2

# ATODIAD 2

2 x Athrawon wedi cymhwyso eleni fel hyfforddwyr cwrs OLT – 'Nam Clyw'

Cymhorthyddion y gwasanaeth ar hyn o bryd yn dilyn cwrs OLT 'nam Clyw' o dan arweiniad yr athrawon.

Cydweithio ag asiantaethau gwirfoddol NDCS – ymweliad bws yn cael ei drefnu I ysgol Parc y Bont ac Ysgol David Hughes mis nesaf- cyfle i ddysgyblion nam clyw ddod at eu gilydd i gael gweithdai arbenigol a cyfle i 45 o ddisgyblion bob ysgol dderbyn sesiwn ' ymwybyddiaeth o fyddardod ' wedi'w deilwrio I'r angen.

**Yr hyn sydd angen ei flaenoriaethu**

Edrych ar fewnbwn y gwasanaeth o fewn ysgolion arbennig

Mireinio meiniprawf mynediad y gwasanaeth- cyfeiriadau o iechyd i'r gwasnaeth ar dair haen ymyrraeth.

Asesu gwasanaeth yn erbyn '**safonau ansawdd 2015/16'** – Natsip/ NDCS/ BATOD.

Rhaeadru hyfforddiant OLT i gymorthyddion disgyblion Nam Clyw ar draws Gwynedd a Môn.

Atodiad 2

**22. Gwasanaeth Nam Golwg**

| Uwch Athrawes | Athrawon arbenigol | Uwch Gymhorthydd arbenigol (lefel 4) |
|---|---|---|
| 0.9 | 2.6 | 2.0 |

**Crynodeb**

Y tîm ar hyn o bryd yn cefnogi 155 o ddisgyblion priflif.

Ceisiadau yn cael eu derbyn o'r adran iechyd i'w drafod yn y Fforwm

Ymyrraeth y gwasanaeth yn seiliedig ar asesiadau Natsip- Gwasanaeth Gwynedd a Môn yn rhan o feincnodi cenedlaethol.

Asesiadau safonol yn cael eu defnyddio yn gyson fewn y gwasanaeth i asesu plentyn.

# ATODIAD 2

Gwasanaeth yn rhan o HOSS – Heads of Sensory Service Cymru gyfan i rannu arfer dda.

Y gwasanaeth wedi buddsoddi yn fawr ar dechnoleg newydd - yn y broses o sefydlu canolfan y gwasanaeth – Hwb - i addasu ar ran disgyblion yn ganolig.- treialu'r drefn newydd - gyda 2 ysgol - Y Faenol - Cynradd acYsgol Friars - Uwchradd.

**Llwyddiannau**

Y gwasanaeth yn strwythuro'r broses o gefnogi disgyblion yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn / capasiti y gwasanaeth - ymyrraeth Natsip wedi ei addasu yn ôl capasiti presennol - ysgolion prilif ac ysgolion arbennig

Basdata newydd y gwasanaeth wedi cael ei sefydlu a'i ddefnyddio i gofnodi data eang am bob disgybl a cheisiadau newydd o'r fforwm

Aelodau o'r gwasanaeth wedi mynychu hyfforddiant TOMS - i gofnodi mesuryddion cyn ac ar ôl mewnbwn y gwasanaeth.

2 x Athrawon yn y broses o ddilyn cwrs hyfforddwyr cwrs OLT – 'Nam Golwg'

Sefydlu trefn ceisiadau'r gwasanaeth am offer arbenigol i ddisgyblion

Gwasanaeth yn sefydlu is-grŵp Gogledd Cymru o WAVIE (Welsh Association for VI Educators) - Cydweithio â Sarah Hughes, Cadeirydd y grŵp Cymru Gyfan i rannu arfer dda.

**Yr hyn sydd angen ei flaenoriaethu**

Ymateb i ofynion ysgolion arbennig y ddau Awdurdod Addysg

Sefydlu canolfan y gwasanaeth i addasu gwaith / braille disgyblion Nam golwg yn ganolog.

Asesu'r angen am wasanaeth swyddog symudedd i'r tîm.

Gwella cyswllt gydag adran iechyd.- rhannu adroddiadau – cyfloedd I cyfarfod yn aml asianatethol I drefod achosion.

Hyfforddiant OLT i gymorthyddion y gwasanaeth CJ a AH

**Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn Gorffennaf 2018**



Atodiad 2

# ATODIAD 2

System cyfeirio drwy Fforymau wedi sefydlu

Y drefn newydd o ganolfan brailio/addasu gwaith wedi ei dreialu â dwy ysgol.

Athrawon arbenigol y gwasanaeth wedi cymhwyso fel hyfforddwyr cwrs OLT –Nam Golwg.

Atodiad 2

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

SGRIWTINI

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO: 2017/2018 →2018/2019

Cadeirydd: Cynghorydd Gwilym O Jones
Is-Gadeirydd: Cynghorydd Robert Llewelyn Jones

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio am y cyfnod Mai 2017 ymlaen, fel rhaglen dreigl a theclyn cynllunio pwrpasol. Adroddir ar y blaen raglen waith i bob cyfarfod arferol o'r Pwyllgor Sgriwtini i'r pwrpas o adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio / dynnu eitemau yn ôl. Ei phwrpas hefyd ydy sicrhau aliniad gyda blaen raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.



Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| | **Mai, 2017** | |
| **31 Mai 2017** | Ethol Cadeirydd | Ethol Cadeirydd |
| Ystafell Pwyllgor 1 /3.30yh | Ethol Is Gadeirydd | Ethol Is Gadeirydd |
| | **Mehefin, 2017** | |
| **27 Mehefin 2017** | Adroddiad Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf | Monitro perfformiad |
| Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid | Gwybodaeth/ monitro perfformiad |
| | Aelodaeth Paneli a Byrddau | Enwebu Aelodaeth |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| | **Hydref, 2017** | |
| **9 Hydref 2017** | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Monitro perfformiad |
| Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Datblygu Cynllun Llesiant Môn a Gwynedd) | Monitro perfformiad/datblygu polisi |
| | Adroddiad Blynyddol Cyflwyniadau yn erbyn Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| | **Tachwedd, 2017** | |
| **14 Tachwedd 2017** | Cynllun Llesiant Drafft - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd (Diweddariad) | Datblygu Polisi |
| Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | Trawsnewid Gwasanaethau Diwylliant | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Adroddiad ar y Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth Fewnol | Monitro perfformiad |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| | **Chwefror, 2018** | |
| **6 Chwefror 2018** | Adroddiad - Perfformiad Ysgolion Môn2016 -2017 | Monitro perfformiad |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | GwE- Adroddiad Blynyddol 2016/2017 | Monitro perfformiad |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| | Aelodaeth Panel Sgriwtini – Adolygu Cynnydd Ysgolion | - |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| | **Mawrth, 2018** | |
| **8 Mawrth, 2018**<br>Siambr y Cyngor / 2yh | Cynllun Llesiant Drafft - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd | Datblygu Polisi |
| | Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid | Datblygu Polisi |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| | **Ebrill, 2018** | |
| **10 Ebrill 2018**<br>Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol –Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| | **Mehefin, 2018** | |
| **19 Mehefin, 2018**<br>Committee Room 1/ 2pm | Adroddiad Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| | Strategaeth Taclo Tlodi (I'w gadarnhau, hwyrach angen cyfarfod yn Gorffennaf) | Datblygu Polisi |
| | Sgriwtini o Bartneriaethau | Monitro perfformiad |
| | Canllawiau Atodol Cynllunio – Iaith Gymraeg (i'w gadarnhau) | Ymgynhori |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| | **Medi, 2018** | |
| **24 Medi 2018**<br>Committee Room 1/ 2pm | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | |
| | **Tachwedd, 2018** | |
| **13 Tachwedd 2018**<br>Committee Room 1/ 2pm | Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus –sgriwtini cychwynol o'r drefn lwodraethol a'r strwythur gweithredu y BGC ( i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| | **Chwefror , 2019** | |
| **5 Chwefror 2019** | Adroddiad – Perfformiad Ysgolion Môn (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| Committee Room 1/ 2pm | GwE- Adroddiad Blynyddol 2016/2017 (i'w gadarnhau-dyddiad cynharach)) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| | **Mawrth, 2019** | |
| **12 Mawrth 2019** Committee Room 1/ 2pm | Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus –sgriwtini o cynnydd ar weithredu y Cynllun Llesiant (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| | **Ebrill, 2019** | |
| **9 Ebrill 2019** | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol -Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| Committee Room 1/ 2pm | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| | **EITEMAU I'W RHAGLENNU** | |
| **Mehefin, 2019** | Sgriwtini o Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | |
| **I'w gadarnhau** | Safleon Sispsiwn a Theithwyr ( Cynllunio a briffio aelodau gyntaf) | |
| **I'w gadarnhau** | Arbrawf Gorfodaeth Amgylcheddol (baw ci)- Diweddariad | |

Tudalen 58